

# Dadansoddiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

ar Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys (ECR)  
yr Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru



# Cynnwys

Cyflwyniad .....	4
Cefndir a Chyd-destun Adolygiad ac Ymgynghoriad y Ddarpariaeth Frys .....	4
Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb: Y Cyd-destun Cyfreithiol.....	7
Methodoleg .....	9
Cyfraith achos .....	11
Ardal Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a Demograffeg Gwasanaeth.....	12
Oed .....	13
Anabledd .....	14
Rhywedd.....	15
Cyfeiriadedd Rhywiol .....	16
Ailbennu Rhywedd.....	16
Beichiogrwydd a Mamolaeth .....	18
Hil.....	18
Crefydd a/neu Gred .....	20
Priodas neu Bartneriaeth Sifil .....	20
Ystyriaethau'r Gymraeg.....	22
Ystyriaethau economaidd-gymdeithasol .....	22
Gweithgaredd Ymgysylltu Cyn Ymgynghori .....	25
Ymgysylltu ac Ymgynghori â Grwpiau Cydraddoldeb Penodol .....	26
Crynodeb o'r Ymgysylltu a'r Ymgynghoriad .....	28
Crynodeb o Ganfyddiadau'r Dadansoddiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb....	31
Oed .....	31
Anabledd .....	33
Iechyd Meddwl a Lles.....	35
Rhywedd.....	36
Ailbennu Rhywedd / Hunaniaeth .....	38
Cyfeiriadedd Rhywiol .....	40
Priodas neu Bartneriaeth Sifil .....	41
Crefydd a/neu Gred .....	43
Hil.....	44
Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol .....	45

Y Gymraeg .....	46
Lliniaru Effeithiau Niweidiol Posibl ar Gydraddoldeb.....	48
Casgliad ac Argymhellion .....	55
Atodiad 1 .....	58
Strategaeth Ymgynghori ac Ymgysylltu Yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys (ECR) Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.....	58
Atodiad 2: ASESU EFFAITH CYDRADDOLDEB (Cyfnod cyn ymgynghori) .....	59
Atodiad 3: Asesu Effaith Cydraddoldeb (Cyfnod Ymgynghori a Gwneud Penderfyniadau) .....	59

## Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn wedi'i gomisiynu gan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (ATAGC) ac mae'n nodi'r Dadansoddiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EIA) ar yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys (ECR).

Mae'r ECR yn ymwneud â'r ffordd y mae adnoddau'n cael eu rheoli i gadw pobl yn ddiogel ac fel rhan o'r adolygiad hwn mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (GTAGC) wedi bod yn gweithio gyda staff a chyrrff cynrychioliadol, aelodau'r cyhoedd, cynrychiolwyr cynghorau, grwpiau bregus lleol ac Aelodau ATAGC i ddeall beth sydd wir yn bwysig i bawb.

Ffocws yr adroddiad hwn yw ystyried yr effaith ar yr opsiynau a gyflwynwyd yn ystod ymgynghoriad cyhoeddus yr ECR i gefnogi Aelodau ATAGC wrth iddynt wneud penderfyniadau ynghylch pa opsiwn i ofyn i'r Gwasanaeth ei weithredu.

Nod cyffredinol yr EIA yw sefydlu a fydd unrhyw grwpiau neu gymunedau penodol yng Ngogledd Cymru dan anfantais mewn unrhyw ffordd mewn perthynas â'r opsiynau yr ymgynghorwyd arnynt fel rhan o'r ECR.

Fel y'i diffinnir gan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 (mae rhagor o wybodaeth am hyn yn adran nesaf yr adroddiad), bydd yr EIA hwn yn canolbwyntio ar y nodweddion gwarchoddedig sy'n dod o fewn Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (PSED) ac o fewn y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol yng Nghymru, yn ogystal ag ystyried unrhyw oblygiadau posibl ar y Gymraeg, yn unol â gofynion Safonau'r Gymraeg.

Yn ychwanegol i'r Dadansoddiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yma mae dau Aseiad Effaith ar Gydraddoldeb yn Atodiadau 2 a 3.

## Cefndir a Chyd-destun Adolygiad ac Ymgynghoriad y Ddarpariaeth Frys

Prif amcan yr ECR oedd ystyried y trefniadau ymateb brys presennol ac argymell opsiynau i ddarparu ymateb brys teg, cynaliadwy a chyfiawn ledled Gogledd Cymru gyfan, gan gydbwyso'r galw a risgiau cymunedol presennol a rhai a ragwelir yn y dyfodol.

Mae'r prif resymau dros gynnal adolygiad i'r ddarpariaeth frys yn cynnwys:

- Mae'r ffaith nad yw diffoddwyr tân ar alwad, sy'n gweithredu'r system dyletswydd rhan amser (RDS), mor hygyrch ag y buont yn draddodiadol, ac mae eu recriwtio hefyd yn profi'n heriol;

- Mae'r risgiau sy'n wynebu cymunedau Gogledd Cymru yn newid gyda newid hinsawdd a thechnoleg newydd; ac
- Mae'r heriau ariannol sy'n cael eu hwynebu nawr yn fwy nag erioed.

Ar hyn o bryd mae gan y Gwasanaeth gyflenwad brys gwarantedig mewn wyth gorsaf dân, sydd wedi'u lleoli'n bennaf ar hyd coridor ffordd ddeuol yr A55 yng Ngogledd Cymru.

Mewn mannau eraill yn y rhanbarth, mae diffoddwyr tân ar alwad yn darparu ymateb gweithredol - ac mae eu hargaeledd yn ystod y dydd yn heriol.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn gweithio'n galed i recriwtio a chadw'r diffoddwyr tân hyn ond mae angen i ni sicrhau y gallwn ddarparu criw ymateb o fewn yr amser ymateb gorau posib ym mhob rhan o Gogledd Cymru.

Mae'r Gwasanaeth felly wedi bod yn archwilio senarios ar gyfer darparu darpariaeth frys yn y dyfodol – gyda'r bwriad o wella'r ddarpariaeth bresennol tra hefyd yn cydnabod yr heriau ariannol presennol. Gan weithio gydag arbenigwyr annibynnol, mae wedi bod yn modelu'n union sut i wneud y gorau o adnoddau ac ymateb yn y ffordd fwyaf effeithiol ac effeithlon.

Mae nifer y digwyddiadau a fynychwyd yn cynyddu trwy gydol y dydd, gan gyrraedd uchafbwynt yn gynnar yn y nos ac yna'n gostwng yn ystod y nos. Edrychodd y Gwasanaeth ar gyfateb y galw hwn trwy newid y ffordd y mae rhai o'i griwiau'n gweithio mewn rhai ardaloedd.

Nod yr ECR oedd galluogi'r Gwasanaeth i ymateb yn fwy effeithiol i'r holl argyfyngau, gan gynnwys gwrthdrawiadau ar y ffordd a digwyddiadau o ganlyniad i dywydd eithafol, yn fwy effeithiol ac yn bwysicaf oll, ar yr amser iawn.

Mae'r ECR wedi cael ei oruchwylio gan Weithgor Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys dan arweiniad aelodau. Mae'r aelodaeth yn cynnwys chwe aelod ATAGC, un o bob awdurdod lleol cyfansoddol.

Comisiynwyd cwmni annibynnol ORH i weithio gyda'r fim ECR. Mae ORH yn arbenigwyr yn y diwydiant ac maen nhw'n dadansoddi data amrywiaeth o sefydliadau sy'n gweithio yn y sector brys. Maen nhw wedi darparu cymorth technegol mewn perthynas â dadansoddi data a modelu i werthuso'r trefniadau darpariaeth frys gyfredol ac i nodi'r lleoliadau gorau bosibl ar gyfer unrhyw orsafoedd staff dydd ychwanegol.

Drwy drafod, mae'r Aelodau wedi diystyru dau opsiwn:

- Parhau â'r trefniadau presennol o ran darpariaeth frys, derbyn y risg sydd ar gael yn ystod y dydd ac i beidio ag adleoli diffoddwyr tân yn ddyddiol mwyach i liniaru'r risgiau hynny.
- Parhau â'r trefniadau presennol o ran darpariaeth frys ac agor tair gorsaf staff dydd ychwanegol am gost ychwanegol o £2.25 miliwn

I grynhoi, gwrthodwyd y sefyllfa bresennol oherwydd anghydraddoldeb y gwasanaeth ymateb ledled Gogledd Cymru, y risgiau sy'n gysylltiedig â diffoddwyr tân a'r cyhoedd, a'r costau cysylltiedig.

Nododd yr Aelodau eu bod yn dymuno ymgynghori ar yr opsiynau hynny sy'n ceisio bodloni nodau'r ECR trwy ailddyrranu diffoddwyr tân presennol i orsafoedd newydd staff dydd. Cyflwynwyd yr opsiynau fel a ganlyn:

**Opsiwn 1:** Byddai hyn yn golygu y byddai'r 12 swydd diffoddwr tân gwledig a'r 28 swydd diffoddwr tân amser cyflawn yn cael eu hailddyrranu o orsaf Y Rhyl a Glannau Dyfrdwy i'r tair gorsaf newydd â staff dydd. Byddai'r ddarpariaeth ar gyfer y Rhyl a Glannau Dyfrdwy yn newid i fodel criw dydd, yn debyg i'r model sydd ar waith ar hyn o bryd ym Mae Colwyn, Llandudno, Bangor, Caernarfon a Chaerdybi. Bydd hyn yn parhau i fod yn ychwanegol at ddiffoddwyr tân presennol y System Dyletswydd Rhan Amser sy'n criwio'r ail injan dân ym mhob un o'r gorsafoedd hyn.

**Opsiwn 2:** Model amgen sy'n darparu gwell gwasanaeth argyfwng drwy gyflwyno tair gorsaf newydd â staff dydd newydd, ond sydd hefyd yn gwireddu arbedion o £1.1 miliwn tuag at y cynnydd yng nghyllideb 2024/25, sydd tua £6 miliwn ar hyn o bryd gan gyfyngu felly ar y cynnydd o flwyddyn i flwyddyn i £4.9 miliwn. Mae'r opsiwn hwn yn newid y model criwio yn y Rhyl a Glannau Dyfrdwy i fodel staff dydd, sy'n golygu mai diffoddwyr tân y System Dyletswydd Rhan Amser yn unig sy'n rhoi'r ddarpariaeth gyda'r nos ac mae'n golygu bod y trydydd peiriant yn cael ei dynnu o Wrecsam. Mae hyn i gyd yn golygu gostyngiad o 22 swydd diffoddwyr tân amser cyflawn.

**Opsiwn 3:** Mae'r newidiadau'r un fath ag Opsiwn 2, ond, dim ond dwy orsaf staff dydd sy'n cael eu cyflwyno ac mae cau pump gorsaf dân RDS yn rhan o'r newidiadau hynny hefyd. Mae hyn yn ostyngiad o 36 o swyddi diffoddwyr tân amser cyflawn a 38 o swyddi diffoddwyr tân y System Dyletswydd Rhan Amser, sy'n golygu arbedion o £2.4m gan gyfyngu ar y cynnydd mewn costau o flwyddyn i flwyddyn i £3.6m. Nodwyd nad oes gan Opsiwn 3 gefnogaeth broffesiynol gan y Prif Swyddog Tân. Y rheswm am hyn yw nad yw'n gwella'r ddarpariaeth frys, gan leihau nifer yr aelwydydd yng Ngogledd Cymru sy'n gallu derbyn ymateb o fewn 20 munud o 2,087.

Nodwyd nad oes gan Opsiwn 3 gefnogaeth broffesiynol gan y Prif Swyddog Tân. Y rheswm am hyn yw nad yw'n gwella'r ddarpariaeth frys, gan leihau nifer yr aelwydydd yng Ngogledd Cymru sy'n gallu derbyn ymateb o fewn 20 munud o 2,087.

Mae Opsiwn 3 hefyd yn dileu 74 o swyddi diffoddwyr tân a fyddai'n lleihau capasiti'r Gwasanaeth i ddelio ag amodau llifeiriant a gyda digwyddiadau mawr. Hefyd, dim ond pan fydd y tair gorsaf staff dydd ychwanegol yn eu lle ac yn darparu sicrwydd o ran gwasanaeth argyfwng yn ystod y dydd y gellir ystyried uno gorsafoedd tân y System Dyletswydd Rhan Amser.

Mae'n ofynnol i'r Awdurdod ymgynghori â'r cyhoedd wrth ystyried newid mawr mewn gwasanaethau o dan amrywiaeth o rwymedigaethau cyfreithiol, gan gynnwys Deddf Cydraddoldeb 2010, Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a chyfraith gyffredin.

Ym mis Ebrill 2023, ymgysylltodd y Gwasanaeth â'r Sefydliad Ymgynghori (tCI), sef sefydliad dielw sydd wedi hen ennill ei blwyf, sy'n hybu arferion gorau er mwyn cynnal ymgynghoriad o ansawdd uchel gyda'r cyhoedd a rhanddeiliaid yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol. Maen nhw yn y gorffennol wedi gweithio ar draws y sector gan gynnwys Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Darparodd y Sefydliad, Tystysgrif o Barodrwydd sy'n cadarnhau bod yr Awdurdod wedi paratoi yn gywir ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus yn unol â gofynion siartr cyfansoddiad y sefydliad ymgynghori (tCI). Yn dilyn hyn, comisiynodd y Gwasanaeth y sefydliad (tCI) i ddarparu sicrwydd ansawdd er mwyn sicrhau bod yr ymgynghoriad cyhoeddus wedi cwrdd â'r safonau.

Yn dilyn cymeradwyaeth yr Aelodau, dechreuodd ymgynghoriad cyhoeddus ar 21 Gorffennaf gan barhau tan 30 Medi 2023. Yna cyflwynwyd canlyniadau'r ymgynghoriad yng nghyfarfod ATAGC ar 16 Hydref 2023.

## **Dadansoddiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb: Y Cydestun Cyfreithiol**

Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (PSED) yn rhan o Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 a daeth i rym ym mis Ebrill 2011. Mae adran 149 o'r Ddeddf Cydraddoldeb yn nodi'r brif ddyletswydd ac yn datgan bod yn rhaid i awdurdodau "wrth arfer eu swyddogaethau, "roi sylw dyledus i'r angen i" ddileu unrhyw ymddygiad a waherddir gan y Ddeddf. Mae hyn yn cynnwys gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth sy'n gysylltiedig â'r 'Nodweddion Gwarchodedig';

- Oed
- Anabledd
- Ailbennu rhywedd
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Hil
- Crefydd neu gred
- Rhyw
- Cyfeiriadedd rhywiol

Er bod 'priodas a phartneriaeth sifil' hefyd yn nodwedd warchoddedig, o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, nid yw'n cael ei chynnwys gan y PSED yn yr un modd â'r nodweddion gwarchoddedig eraill, a restrir uchod ac at ddibenion y ddyletswydd i ddileu gwahaniaethu. Mae'n bwysig nodi bod Adran 1 y Ddeddf Cydraddoldeb 'Dyletswydd economaidd-gymdeithasol' wedi dod i rym yng Nghymru ar 31 Mawrth 2021, ac mae hyn yn gofyn am yr un ystyriaeth briodol â'r naw nodwedd warchoddedig a restrir uchod.

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 hefyd yn ystyriaeth gyfreithiol arall sydd wedi'i chynnwys yn yr EIA. Yn unol â'r safonau llunio polisi o fewn hysbysiad cydymffurfio Safonau'r Gymraeg, mae'n nodi y dylid ystyried unrhyw effeithiau, boed yn gadarnhaol neu'n niweidiol i'r Gymraeg. Rhaid i'r EIA gynnwys unrhyw effeithiau y gellir eu hadnabod ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Mae gan y PSED dair prif agwedd, a dyma nhw:

1. Dileu gwahaniaethu, aflonyddu, dioddefiaeth ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir gan neu o dan y Ddeddf hon.
2. Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng personau sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a phersonau nad ydynt yn ei rhannu.
3. Meithrin perthynas dda rhwng personau sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a phersonau nad ydynt yn ei rhannu.

Rhoi sylw dyledus i'r angen i 'hyrwyddo cyfle cyfartal' rhwng y rhai sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a'r rhai nad ydynt gan gynnwys rhoi sylw dyledus i'r angen i ddileu neu leihau anfanteision a ddioddefir ganddynt. Mae rhoi sylw dyledus hefyd yn golygu bod sefydliadau cyhoeddus, fel GTAGC, yn cymryd mesurau i ddiwallu anghenion personau o'r fath lle mae'r anghenion hynny'n wahanol i bobl nad oes ganddynt y nodwedd honno, ac annog y rhai sydd â nodwedd warchoddedig i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus.

Fel rhan hanfodol o gwrdd â'u PSED, mae awdurdodau cyhoeddus yn cynnal Dadansoddiad Effaith ar Gydraddoldeb. Bydd hyn yn cael ei gofnodi drwy gwblhau Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EqIA). Asesiad o bolisi sefydliadol arfaethedig yw Dadansoddiad Cydraddoldeb, neu newid i un sy'n bodoli eisoes fel y gellir penderfynu a yw'r polisi yn cael effaith wahanol



ar bersonau o'r nodweddion gwarchoddedig. Er nad oes ffordd ragnodol o wneud hyn bellach, mae cyfraith achos wedi darparu canllawiau ar sut i gynnal dadansoddiad o'r effaith ar gydraddoldeb, sef:

- Sicrhau bod cofnod ysgrifenedig o'r ystyriaethau cydraddoldeb sy'n cael eu hystyried;
- Sicrhau bod unrhyw benderfyniadau'n cynnwys ystyried y camau a fyddai'n helpu i osgoi neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol ar grwpiau cydraddoldeb penodol;
- Sicrhau bod y penderfyniadau a wneir yn cael eu gwneud ar sail tystiolaeth; a
- Sicrhau bod y broses o wneud penderfyniadau yn dryloyw.

## Methodoleg

Yn seiliedig ar dair prif agwedd y PSED (nodwyd ynghynt), mae'r EIA yn nodi gwybodaeth i gefnogi Aelodau ATAGC wrth iddynt wneud penderfyniadau ar yr opsiwn ECR i'w weithredu.

Mae'r adroddiad hwn a'r EqlAs cysylltiedig (Atodiad 2 a 3) yn canolbwyntio ar ganfyddiadau cydraddoldeb y cyn-ymgyngori a'r ymgynghoriad cyhoeddus llawn a gynhaliwyd gan ATAGC rhwng 21 Gorffennaf a 30 Medi 2023.

Mae'r EIA hwn yn dwyn ynghyd y manylion ynghylch ymgysylltu a gweithgarwch ymgynghori; demograffeg ardal ATAGC, gan gyfeirio'n benodol at nodweddion gwarchoddedig; yr effaith wahaniaethol a ragwelir wrth edrych ar y tri opsiwn posibl, yn benodol o ran cydraddoldeb; unrhyw ffactorau lliniaru a fydd yn helpu i reoli unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig â'r effaith. Er bod yr adroddiad hwn yn gorffen gydag argymhellion, rhaid nodi y bydd proses asesu effaith ar gydraddoldeb yn parhau drwy weithredu.

Bu ATAGC yn casglu data sylfaenol drwy gydol yr ymgynghoriad sydd wedi bwydo'n uniongyrchol i'r EIA hwn. Nodir hyn yn adran yr adroddiad hwn ar ymgysylltu ac ymgynghori.

Roedd yr adolygiad o ddata yn rhan o'r fethodoleg fel a ganlyn:

<b>Swyddogaeth o fewn methodoleg</b>	<b>Gwybodaeth neu ddata a adolygyd, neu ddull</b>
Dealltwriaeth o sut mae anghydraddoldebau'n amlwg ym mywydau pobl sydd â nodweddion gwarchoddedig (fel sy'n berthnasol i'r opsiynau arfaethedig).	Yn seiliedig ar brofiad cyfunol o dros 16 mlynedd ym maes cydraddoldeb.  Adolygiad o adroddiad dwyflynyddol y Comisiwn

	Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, sy'n amlygu anghydraddoldebau ar gyfer nodweddion gwarchoddedig.
Dealltwriaeth o ddsbarthiad nodweddion gwarchoddedig ar draws Gogledd Cymru, er mwyn llywio'r asesiad o effaith Opsiynau'r ECR.	Cwestiynu data Instant Atlas ar gyfer ardal Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.  Ymchwil pen desg i ffynonellau cyhoeddedig presennol.
Cwestiynu adborth a fynegwyd gan randdeiliaid mewnol ac allanol am yr opsiynau sydd wedi'u cynnwys yn yr opsiynau ar gyfer ymgynghoriad ECR i bennu unrhyw amrywiadau yn ôl nodweddion gwarchoddedig.	Asesiad llawn o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi'i gwblhau gan y Swyddog Cydraddoldeb ac Amrywiaeth a Chynhwysiant. Asesodd y broses hon yr effaith bosibl ar randdeiliaid mewnol ac allanol ar wahân.
Adolygu cyfraith achosion i nodi gwersi a ddysgwyd i lywio'r fethodoleg hon, i ddysgu o brofiadau sefydliadau tebyg sy'n cynnal adolygiadau o ddarpariaethau gwasanaeth.	Achosion a nodwyd drwy'r Sefydliad Ymgynghori.
Defnyddio trywyddau ymholi allweddol gyda holiadur yr ymgynghoriad i benderfynu a fyddai'r opsiynau a gyflwynwyd yn cael effaith andwyol ar un neu fwy o nodweddion gwarchoddedig.	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Oes unrhyw risgiau eraill y dylem fod yn eu hystyried neu'n cynllunio ar eu cyfer yn eich barn chi? Cwestiwn testun am ddim a fyddai'n caniatáu codi pryderon cydraddoldeb.</li> <li>• Oes unrhyw feini prawf eraill y dylid eu cynnwys yn eich barn chi? Yn dilyn y meini prawf gwerthuso, cwestiwn testun am ddim a fyddai'n caniatáu codi unrhyw feini prawf pellach ynghylch cydraddoldeb.</li> <li>• Rydyn ni wedi cynnal asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb i sicrhau bod ein proses gwneud penderfyniadau'n deg ac nad yw'n cyflwyno rhwystrau i gymryd rhan nac yn rhoi unrhyw un dan anfantais, yn</li> </ul>

	<p>enwedig grwpiau gwarchoddedig.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Oes unrhyw faterion cydraddoldeb eraill y dylen ni fod yn meddwl amdanyn nhw? Cwestiwn penodol i dynnu sylw at faterion cydraddoldeb.</li> <li>• Oes meysydd eraill yn ymwneud â darpariaeth frys yr hoffech i ni eu hystyried? Cwestiwn testun am ddim a fyddai'n caniatáu codi pryderon cydraddoldeb.</li> </ul>
--	---

**Tabl 1:** Methodoleg a ffynonellau data a gwybodaeth

## Cyfraith achos

Hyd yma mae tri achos cyfreithiol sydd wedi llywio'r ffordd y mae angen cynnal EIA. Y cyntaf yw'r achos R (Brown) v Ysgrifennydd Gwladol dros Gwaith a Phensiynau [2008] yr ail; achos Branwood v Cyngor Bwrdeistref Metropolaid Rochdale [2013] a'r trydydd; Achos R (Bracking ac eraill) v Ysgrifennydd Gwladol Gwaith a Phensiynau [2013]

Mae achos Brown yn achos adnabyddus, a oedd yn bwysig oherwydd ei ddyfarniad ar Asesiadau Effaith a Lledaenu'r chwe 'egwyddor gyffredinol'. Sef:

- **Gwybodaeth** - Rhaid i'r rhai yn yr awdurdod cyhoeddus sy'n gorfod gwneud penderfyniadau fod yn ymwybodol o'u dyletswydd i roi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, hyrwyddo cydraddoldeb a meithrin perthnasoedd da ar draws yr holl nodweddion gwarchoddedig.
- **Cymesuredd** - Rhaid arfer lefel uwch neu is o "sylw dyledus", yn dibynnu ar gyfaint a difrifoldeb.
- **Ymgynghoriad** - Rhaid i hyn fod yn amserol, yn seiliedig ar roi gwybodaeth glir a gofyn y cwestiynau cywir.
- **Amseroldeb** - Rhaid rhoi "sylw dyledus" cyn ac ar yr adeg y mae'r polisi'n cael ei ystyried.
- **Digon o wybodaeth** - Rhaid ystyried yr holl ffactorau perthnasol, felly mewn geiriau eraill rhaid i'r penderfyniad gael ei arfer yn ei sylwedd, gyda thrylwyredd a meddwl agored.
- **Ystyriaeth wirioneddol** – Ystyried y ddyletswydd o ran sylwedd, gyda thrylwyredd a meddwl agored; nid yw'n gwestiwn o 'dicio blychau'.

- **Dim dirprwyaeth** - Bydd y ddyletswydd bob amser yn parhau i fod yn gyfrifoldeb y corff cyhoeddus sy'n destun y ddyletswydd.

Ceisiodd y barnwr yn achos Branwood ategu a diweddarau 'Egwyddorion Brown' ac yn achos Bracking, cyhoeddodd y barnwr set arall o Egwyddorion, cadarnhaodd rhai o'r rhain yr "Egwyddorion Brown". Fel y clywyd achos Brown yn yr Uchel Lys a Bracking yn y Goruchaf Lys, mae gan Bracking uchafiaeth ac felly yr Egwyddorion Bracking yw'r profion cyfreithiol a ddefnyddir mewn adolygiad barnwrol.

## Demograffeg Ardal a Gwasanaeth Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

Mae gan ogledd Cymru boblogaeth o tua 687,000 o bobl wedi'u gwasgaru dros ardal ddaearyddol o 2383 milltir sgwâr (neu 6,172 cilomedr sgwâr). Mae'r rhanbarth yn cynnwys chwe sir sy'n cynnwys Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, Ynys Môn, a Wrecsam. Mae'n cwmpasu tirwedd amrywiol, gan gynnwys Parc Cenedlaethol Eryri, ardaloedd arfordirol, a chymunedau gwledig. Mae'r rhanbarth wedi'i gysylltu'n dda, gyda phriffyrdd mawr, rheilffyrdd a phorthladdoedd yn darparu mynediad i weddill y DU ac Ewrop.

Y ddinas fwyaf yng Ngogledd Cymru yw Wrecsam, sy'n gweithredu fel canolbwynt ar gyfer masnach a diwydiant, tra bod cytrefi mawr eraill yn cynnwys Bangor, Caernarfon, Bae Colwyn, Glannau Dyfrdwy, Llandudno a'r Rhyl.

Mae'r rhanbarth hefyd yn gartref i sawl prifysgol a choleg, gan ddarparu cronfa dalent gref ar gyfer busnesau lleol a rhyngwladol sydd wedi'u lleoli yma. Yn ogystal, mae'r rhanbarth yn gyrchfan boblogaidd i dwristiaid, gan ddenu ymwelwyr o bob cwr o'r byd gyda'i arfordir trawiadol, ei hanes cyfoethog, a'i diwylliant unigryw.

Mae'r Gymraeg, fel iaith byw, yn parhau i fod wrth wraidd yr hunaniaeth Gymreig fodern. Mae mwynhau bywyd teuluol, addysg, gwaith a hamdden drwy gyfrwng y Gymraeg yn dystiolaeth o bwysigrwydd yr iaith i bobl Cymru.

O ran y 687,000 o bobl sy'n byw yng Ngogledd Cymru, mae data Cyfrifiad 2021<sup>1</sup> yn nodi fod 22.3% o'r boblogaeth yn 65 oed a hŷn. O'r holl awdurdodau

---

<sup>1</sup> Office of National Statistics (2021) Population and household estimates, Wales: Census 2021, l'w weld yn:

[www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/populationestimates/bulletins/populationandhouseholdestimateswales/census2021#local-authority-populations-in-wales](https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/populationestimates/bulletins/populationandhouseholdestimateswales/census2021#local-authority-populations-in-wales)

lleol ledled Cymru, Conwy (27.4%) ac Ynys Môn (26.4%) sydd â'r canrannau uchaf o bobl 65 oed a hŷn. Conwy (1.5%) sydd â'r ganran uchaf o bobl 90 oed yng Nghymru.

Gyda chroestoriadedd mewn golwg, mae'n ddefnyddiol edrych ar anabledd ac oedran oherwydd y gwahaniaeth nodedig yn y data rhwng 2011 a 2021, yn enwedig yn y grwpiau oedran iau a hŷn<sup>2</sup>. Ar gyfer merched rhwng 15 a 19 oed, roedd canran yr anabledd yn 13.3% yn 2021, sy'n 8.1 pwynt canrannol yn uwch nag yn 2011 a 7.9 pwynt canrannol yn uwch nag yn 2001. Parhaodd y duedd hon i'r grŵp oedran 20 i 24 oed, lle cynyddodd nifer yr achosion o anabledd yn sylweddol, o 6.2% yn 2011 i 17.9% yn 2021. Ar gyfer dynion, roedd yr achosion cynyddol o anabledd yn 2021 yn dechrau mewn oedrannau cynharach; roedd 8.6% o fechgyn 5 i 9 oed yn anabl yn 2021, o'i gymharu â 5.6% yn 2011 a 6.5% yn 2001<sup>3</sup>.

Mae poblogaeth Gogledd Cymru yn llawer llai amrywiol o ran ethnigrwydd nag ar draws Cymru a Lloegr yn gyffredinol a nododd 96.8% o'r boblogaeth eu bod yn "Gwyn" yng Nghyfrifiad 2021. Yng Ngogledd Cymru, roedd y cyfrannau uchaf o bobl o "Unrhyw gefndir Gwyn arall" yn 2021 yn Wrecsam (4.8%) a Sir y Fflint (3.9%) a'r isaf yn Ynys Môn (1.9%)<sup>4</sup>.

## Oed

Gall oedran unigolyn, ynghyd â ffactorau ychwanegol megis 'nodweddion gwarchoddedig' eraill effeithio ar eu mynediad at wasanaethau cyhoeddus. Gall unigolion hefyd ddioddef gwahaniaethu ac anghydraddoldebau oherwydd eu hoedran.

Canfu Arolwg Cymdeithasol Ewrop 2012 mai gwahaniaethu ar sail oedran oedd y math mwyaf cyffredin o ragfarn a brofwyd yn y DU, gyda 28% o'r ymatebwyr yn dweud eu bod wedi profi rhagfarn ar sail oedran. Yn yr adran

---

<sup>2</sup> Llywodraeth Cymru (2022) Ethnic group, national identity, language and religion in Wales - Census 2021, I'w weld yn: <https://www.gov.wales/ethnic-group-national-identity-language-and-religion-wales-census-2021-html#:~:text=90.6%25%20of%20the%20population%20identified,to%202.3%25%20in%202011>)

<sup>3</sup> Office for National Statistics (2023b) Disability by Age, sex and deprivation, England and Wales: Cyfrifiad 2021. I'w weld yn: [www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/disability/articles/disabilitybyagesexanddeprivationenglandandwales/census2021#:~:text=Source%3A%20Office%20for%20National%20Statistics%20-%20Census%202021,-Embed%20code&text=In%20Wales%2C%2022.3%25%20of%20females,10.4%25%20and%209.5%25%20respectively](http://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/disability/articles/disabilitybyagesexanddeprivationenglandandwales/census2021#:~:text=Source%3A%20Office%20for%20National%20Statistics%20-%20Census%202021,-Embed%20code&text=In%20Wales%2C%2022.3%25%20of%20females,10.4%25%20and%209.5%25%20respectively)

<sup>4</sup> Llywodraeth Cymru (2022) Ethnic group, national identity, language and religion in Wales - Census 2021, I'w weld yn: <https://www.gov.wales/ethnic-group-national-identity-language-and-religion-wales-census-2021-html#:~:text=90.6%25%20of%20the%20population%20identified,to%202.3%25%20in%202011>)

hon y categori oedran y rhoddir y sylw mwyaf iddo yw 65+, gan mai dyma'r band oedran sy'n wynebu'r gwahaniaethu mwyaf ar sail oedran.

Mae dadansoddiad o ddata Cyfrifiad 2021 yn dangos bod trigolion Gogledd Cymru 65 oed neu'n hŷn yn fwy tebygol na'r rhai o dan 65 oed i:

- fod â salwch cyfyngol hirdymor;
- Bod mewn iechyd gwael;
- Bod yn byw ar eu pennau eu hunain;
- Bod heb fynediad i'r car;
- Bod yn darparu gofal di-dâl o 50 awr neu fwy yr wythnos;
- Byw mewn cartref heb wres canolog.

Roedd pobl dros 50 oed yn fwy tebygol na'r rhai o dan 50 oed i:

- Fod yn byw ar eu pennau eu hunain;
- Bod yn ynysig ac wedi'u heithrio;
- Bod yn darparu gofal di-dâl; a
- Bod heb unrhyw gymwysterau.

Bydd goblygiadau ariannol ac adnoddau i'r boblogaeth sy'n heneiddio, oherwydd mae'n debygol mai dyma'r oedran y bydd anghenion iechyd a gofal cymdeithasol unigolion yn cynyddu.

## **Anabledd**

O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, mae gan berson anabledd os oes ganddo nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith andwyol sylweddol a hirdymor ar allu'r person hwnnw i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd. Mae hyn yn gyson â diffiniad y Cyfrifiad o broblem iechyd gyfyngol hirdymor.

Yn ôl data Cyfrifiad 2021, mae gan Ogledd Cymru 20.7% o gyfanswm y boblogaeth yn adrodd am anabledd a/neu gyflwr iechyd hirdymor. Y cyfartaledd cenedlaethol yng Nghymru yw 21.1% ac at ddibenion cymharu 17.7% yn Lloegr <sup>5</sup>.

Mae cysylltiad agos rhwng anabledd ac oedran, gyda phobl hŷn yn fwy tebygol o fod yn anabl. Yng Ngogledd Cymru, mae data Cyfrifiad 2021 yn dangos mai'r grŵp oedran sydd â'r gyfran uchaf o bobl ag iechyd is na'r cyfartaledd yw'r rhai 65 oed a hŷn (12.5%), gyda'r gyfran isaf ymhlith y rhai 15

---

<sup>5</sup> Office for National Statistics (2023c) Disability, England and Wales: Cyfrifiad 2021. I'w weld yn:

[www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/healthandwellbeing/bulletins/disabilityenglandandwales/census2021#:~:text=In%20Wales%2C%20in%202021%2C%20a,\(23.4%25%2C%20696%2C000\)](http://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/healthandwellbeing/bulletins/disabilityenglandandwales/census2021#:~:text=In%20Wales%2C%20in%202021%2C%20a,(23.4%25%2C%20696%2C000))

oed ac iau (0.5%). Gwelwyd hyn ym mhob awdurdod lleol gyda rhywfaint o fân amrywiad yn y canrannau.

Yng Ngogledd Cymru, roedd y ganran uchaf o fewn y boblogaeth 17 oed neu iau ag iechyd is na'r cyfartaledd rhwng 16 ac 17 oed (1.2% o'r boblogaeth hon), ac roedd y ganran isaf yng Ngogledd Cymru ymhlith y rhai 2 oed ac iau (0.3 % o'r boblogaeth hon). Roedd rhywfaint o amrywiad yn yr awdurdodau lleol er bod y ganran uchaf ymhlith y rhai 16 i 17 oed ym mhob awdurdod lleol ac eithrio Sir Ddinbych lle'r oedd y ganran uchaf ymhlith y rhai 15 oed (1.7% o'r boblogaeth hon). Nid yw'n bosibl cymharu'r data hwn â'r data a gynhwyswyd yn yr adroddiad blaenorol gan y defnyddiwyd ffynhonnell ddata amgen.

## Rhywedd

Yn ôl data Cyfrifiad 2021, poblogaeth Gogledd Cymru yn ôl rhywedd yw benywaidd 51% a gwrywaidd 49%. O'i gyfuno â ffactorau ychwanegol fel byw ar eich pen eich hun, statws cyflogaeth, incwm ariannol, anghenion iechyd a gofal cymdeithasol, mae ymchwil yn awgrymu y gall rhywedd person gael canlyniadau anghymesur.

Mae pobl yn cael eu heffeithio'n anghymesur gan eu rhywedd pan fydd gwahanol gysyniadau'n cael eu harchwilio sy'n cynnwys troseddau casineb a cham-drin domestig<sup>6</sup>, bwloch cyflog rhwng y rhyweddau ac incwm ariannol<sup>7</sup>, cael mynediad at ofal iechyd<sup>8</sup>, iechyd meddwl<sup>9</sup>, cham-drin domestig<sup>10</sup> a gall unigolion hefyd brofi gwahaniaethu ac anghydraddoldebau oherwydd eu rhywedd<sup>11</sup>.

---

<sup>6</sup> Stop Hate (2023) Gender Based Hate Crime, I'w weld yn [www.stophateuk.org/about-hate-crime/gender-based-hate-crime/](http://www.stophateuk.org/about-hate-crime/gender-based-hate-crime/)

<sup>7</sup> ONS (2022) Gender Pay Gap 2022, I'w weld yn [www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/earningsandworkinghours/bulletins/genderpaygapintheuk/2022](http://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/earningsandworkinghours/bulletins/genderpaygapintheuk/2022)

<sup>8</sup> WHO (2023) Gender and Health, I'w weld yn [www.who.int/news-room/questions-and-answers/item/gender-and-health](http://www.who.int/news-room/questions-and-answers/item/gender-and-health)

<sup>9</sup> Mental Health Foundation (2023) Men and Mental Health, I'w weld yn [www.mentalhealth.org.uk/explore-mental-health/a-z-topics/men-and-mental-health](http://www.mentalhealth.org.uk/explore-mental-health/a-z-topics/men-and-mental-health)

<sup>10</sup> ONS (2021) Domestic Abuse Victims, I'w weld yn [www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/articles/domesticabusevictimcharacteristicsenglandandwales/yearendingmarch2022](http://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/articles/domesticabusevictimcharacteristicsenglandandwales/yearendingmarch2022)

<sup>11</sup> CIPD (2023) Gender Equality Work, I'w weld yn [www.cipd.org/uk/views-and-insights/cipd-viewpoint/gender-equality-work/](http://www.cipd.org/uk/views-and-insights/cipd-viewpoint/gender-equality-work/)

## Cyfeiriadedd Rhywiol

Mae cyfeiriadedd rhywiol yn derm cyffredinol sy'n cwmpasu hunaniaeth rywiol, atyniad ac ymddygiad. Yn ôl Stonewall<sup>12</sup> mae tua 7% o bobl yn nodi bod ganddynt gyfeiriadedd rhywiol sy'n golygu cael eu denu at bobl o fwy nag un rhywedd.

Yn ôl Cyfrifiad 2021<sup>13</sup>, mae 89.4% o boblogaeth Cymru yn nodi eu bod yn heterorywiol neu'n syth, 7.6% o'r boblogaeth 'heb ateb', gyda 3% o'r boblogaeth yn nodi eu bod yn Hoyw, Lesbiaidd, Deurywiol neu 'arall'.

Mae ymchwil sy'n ymchwilio i brofiad pobl o gael mynediad at wasanaethau cyhoeddus wedi canfod bod pobl sy'n ystyried eu hunain yn Hoyw, Lesbiaidd, Deurywiol neu gyfeiriadedd heblaw heterorywiol, yn aml yn ymwneud ag anghydraddoldeb a mynediad cyfyngedig. Er mai prin iawn yw'r ymchwil ar wasanaethau tân ac achub, mae mynediad cyfyngedig wedi'i amlygu mewn gwasanaethau cyhoeddus amrywiol gan gynnwys gofal iechyd<sup>14</sup> ac awdurdodau'r Heddlu ac Awdurdodau Lleol.<sup>15</sup>

## Ailbennu Rhywedd

Diffinnir ailbennu rhywedd gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 fel person sy'n bwriadu mynd trwy, sy'n mynd trwy neu sydd wedi mynd trwy broses (neu ran o broses) at ddiben ailbennu eu rhyw trwy newid nodweddion ffisiolegol neu briodolddau rhyw eraill. Mae hyn yn golygu nad oes angen i unigolyn fod wedi cael unrhyw driniaeth neu lawdriniaeth i gael ei ddiogelu gan y gyfraith.

Mae tystiolaeth yn dangos, pan fydd pobl drawsryweddol (41%) a/neu anneuaidd (31%) yn datgelu eu hamrywiad rhywedd, eu bod yn agored i risg o wahaniaethu, bwlio a throseddau casineb<sup>16</sup>.

Roedd 67% o bobl drawsryweddol a 70% o bobl anneuaidd wedi profi iselder yn ystod y flwyddyn ddiwethaf<sup>17</sup>. Roedd bron i hanner y bobl a nododd eu

---

<sup>12</sup> Stonewall (2022) Rainbow Britain Report, I'w weld yn:

[www.stonewall.org.uk/system/files/rainbow\\_britain\\_report.pdf](http://www.stonewall.org.uk/system/files/rainbow_britain_report.pdf)

<sup>13</sup> ONS (2021) Sexual Orientation, Age and Sex in England and Wales, I'w weld yn:

[www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/culturalidentity/sexuality/articles/sexualorientationageandsexenglandandwales/census2021](http://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/culturalidentity/sexuality/articles/sexualorientationageandsexenglandandwales/census2021)

<sup>14</sup> Stonewall (2018) LGBT+ in Britain Report 2018, I'w weld yn:

[www.stonewall.org.uk/system/files/lgbt\\_in\\_britain\\_health.pdf](http://www.stonewall.org.uk/system/files/lgbt_in_britain_health.pdf)

<sup>15</sup> Stonewall (2017) LGBT+ in Britain: Hate Crime, I'w weld yn:

[www.stonewall.org.uk/system/files/lgbt\\_in\\_britain\\_hate\\_crime.pdf](http://www.stonewall.org.uk/system/files/lgbt_in_britain_hate_crime.pdf)

<sup>16</sup> Stonewall (2018) LGBT+ in Britain: Trans Report, I'w weld yn:

[www.stonewall.org.uk/system/files/lgbt\\_in\\_britain\\_-\\_trans\\_report\\_final.pdf](http://www.stonewall.org.uk/system/files/lgbt_in_britain_-_trans_report_final.pdf)

<sup>17</sup> Manchester University (2018) I'w weld yn:

<https://sites.manchester.ac.uk/carms/2020/06/17/gender-identity-why-are-transgender-and-non-binary-people-more-at-risk-of-suicide/>



bod yn drawsryweddol (46%) yn meddwl am gymryd eu bywyd eu hunain yn ystod y flwyddyn ddiwethaf; roedd 60% yn meddwl nad oedd eu bywyd yn werth ei fyw; ac roedd 12% wedi ceisio lladd eu hunain.

Mewn cymhariaeth, amcangyfrifir bod tua 20% o'r boblogaeth gyffredinol yn profi teimladau hunanladdol yn ystod eu hoes<sup>18</sup> a thua 13% yn hunan-niweidio<sup>19</sup>. Felly, mae pobl drawsryweddol ac anneuaidd mewn mwy o berygl o lawer o amrywiaeth o brofiadau hunanladdol, gan eu bod yn wynebu problemau iechyd meddwl a phrofiadau hunanladdol ar gyfraddau sylweddol uwch na'r boblogaeth gyffredinol, yn enwedig ymhlith pobl iau.<sup>20,21</sup>.

Mae ymchwil hefyd wedi canfod bod pobl traws a/neu anneuaidd yn wynebu anawsterau sylweddol wrth gael mynediad at a defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol oherwydd diffyg gwybodaeth a dealltwriaeth staff ac weithiau rhagfarn<sup>22</sup>.

Canfu ymchwil a gynhaliwyd gan Stonewall<sup>23</sup> nad oedd chwarter y staff iechyd a gofal cymdeithasol yn hyderus yn eu gallu i ymateb i anghenion gofal penodol cleifion a defnyddwyr gwasanaethau pobl traws a/neu anneuaidd.

Mae nifer cynyddol o bobl traws yn cael mynediad i Glinigau Hunaniaeth Rhywedd; nid yw'n glir a yw hyn yn cynrychioli cynnydd yn y boblogaeth draws neu gyfran gynyddol o'r boblogaeth draws sy'n defnyddio Gwasanaethau Hunaniaeth Rhywedd<sup>24</sup>.

Er nad oes unrhyw amcangyfrifon swyddogol o ailbennu rhywedd ar lefel genedlaethol na rhanbarthol, mae Stonewall<sup>25</sup> yn amcangyfrif bod tua 1% o'r

---

<sup>18</sup> Time To Change (2020). Suicidal feelings, I'w weld yn: <https://www.time-to-change.org.uk/about-mental-health/types-problems/suicidal-feelings#toc-2>

<sup>19</sup> Time To Change (2020). Suicidal feelings, I'w weld yn: <https://www.time-to-change.org.uk/about-mental-health/types-problems/suicidal-feelings#toc-2>

<sup>20</sup> Stonewall (2017) School Report, I'w weld yn: [www.stonewall.org.uk/resources/school-report-2017](http://www.stonewall.org.uk/resources/school-report-2017)

<sup>21</sup> Transgender Trend (2016) The Suicide Myth, I'w weld yn: [www.transgendertrend.com/the-suicide-myth/](http://www.transgendertrend.com/the-suicide-myth/)

<sup>22</sup> Royal College of Nursing (2020) Fair Care for Trans and Non-Binary, I'w weld yn: [www.rcn.org.uk/Professional-Development/publications/rcn-fair-care-trans-non-binary-uk-pub-009430](http://www.rcn.org.uk/Professional-Development/publications/rcn-fair-care-trans-non-binary-uk-pub-009430)

<sup>23</sup> Time To Change (2020). Suicidal feelings, I'w weld yn: <https://www.time-to-change.org.uk/about-mental-health/types-problems/suicidal-feelings#toc-2>

<sup>24</sup> LGBT Foundation (2017) Transforming Outcomes A review of the needs and assets of the trans community, I'w weld yn: <https://dxfy8lrzbpwyr.cloudfront.net/Files/acd2bcc5-a2d4-4203-8e22-aed9f4843921/TransformingOutcomesLGBTFdn.pdf>

<sup>25</sup> LGBT Foundation (2017) Transforming Outcomes A review of the needs and assets of the trans community, I'w weld yn: <https://dxfy8lrzbpwyr.cloudfront.net/Files/acd2bcc5-a2d4-4203-8e22-aed9f4843921/TransformingOutcomesLGBTFdn.pdf>

boblogaeth yn nodi eu bod yn draws, gan gynnwys pobl sy'n nodi eu bod yn anneuaid. Felly, byddai amcangyfrif rhesymegol yn awgrymu bod rhwng 6,000 a 7,000 o bobl yng Ngogledd Cymru yn profi rhywfaint o amrywiad rhywedd.

## **Beichiogrwydd a Mamolaeth**

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn diogelu pobl sy'n feichiog, wedi rhoi genedigaeth yn ystod y 26 wythnos diwethaf (cyd-destun nad ydynt yn gweithio) neu sydd ar absenoldeb mamolaeth (cyd-destun gweithio), yn erbyn gwahaniaethu mewn perthynas â'u beichiogrwydd.

Yn yr 20 mlynedd diwethaf, mae Gogledd Cymru yn amrywio rhwng 7,086 a 7,826 o enedigaethau byw bob blwyddyn. Dros y cyfnod hwn, roedd y cyfrannau mwyaf o'r genedigaethau hyn yn y grŵp oedran 25 i 29 oed. Roedd yr ail gyfran fwyaf o enedigaethau yn y grŵp 30 i 34 oed, a'r grŵp dros 40 oed oedd yr isaf. Dros y ddau ddegawd diwethaf, mae genedigaethau yn yr arddegau wedi cyfrif rhwng 4.7% a 9.6% o enedigaethau cyffredinol Gogledd Cymru bob blwyddyn. Ac eithrio ambell flwyddyn, mae genedigaethau yn yr arddegau wedi gostwng flwyddyn ar ôl blwyddyn ers 2003.

## **Hil**

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn datgan bod hil yn cynnwys lliw, cenedligrwydd, tarddiad ethnig neu genedlaethol. Mae 96.8% o bobl Gogledd Cymru yn ystyried eu bod yn Wyn Cymreig/Prydeinig. Asiaidd neu Asiaidd Cymreig/Prydeinig oedd yr ail grŵp ethnig mwyaf (1.4%), ac yna grwpiau ethnig cymysg neu luosog (1.1%), grŵp ethnig arall (0.4%) a Du, Prydeinig Cymreig/Prydeinig, Caribiaidd neu Affricanaidd (0.3%) ).

Mae poblogaeth Gogledd Cymru yn llawer llai amrywiol o ran ethnigrwydd nag ar draws Cymru a Lloegr yn gyffredinol a nododd 96.8% o'r boblogaeth eu bod yn "Gwyn" yng Nghyfrifiad 2021. Yng Ngogledd Cymru, roedd y cyfrannau uchaf o bobl o "Unrhyw gefndir Gwyn arall" yn 2021 yn Wrecsam (4.8%) a Sir y Fflint (3.9%) a'r isaf yn Ynys Môn (1.9%).

Cafodd pandemig COVID-19 effaith anghymesur ar bobl o gymunedau lleiafrifoedd ethnig ac yn ddiweddar amlygodd Llywodraeth Cymru<sup>26</sup> bod

---

<sup>26</sup> LGBT Foundation (2017) Transforming Outcomes A review of the needs and assets of the trans community, l'w weld yn: <https://dxfy8lrzbpwyr.cloudfront.net/Files/acd2bcc5-a2d4-4203-8e22-aed9f4843921/TransformingOutcomesLGBTFdn.pdf>

llawer o bobl, gan gynnwys y rhai a anwyd yng Nghymru, yn dal i brofi hiliaeth yn rheolaidd.

Amlygodd adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol<sup>27</sup> o 2016 faterion amrywiol sy'n dal yn berthnasol yn 2023 i bobl o grwpiau lleiafrifoedd ethnig sy'n parhau i brofi gwahaniaethu ac anghydraddoldeb mewn addysg, cyflogaeth, tai, cyflog a safonau byw, iechyd, a'r system cyfiawnder troseddol.

Ymhlith pobl 65 oed a hŷn, roedd pobl Asiaidd ac Asiaidd Prydeinig a phobl ddu Affricanaidd/Caribiaidd/Du Prydeinig yn fwy tebygol na phobl o gefndiroedd ethnig eraill o fod â salwch cyfyngol hirdymor ac o fod mewn iechyd gwael.

Roedd pobl o dras Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig gryn dipyn yn fwy tebygol o fod mewn iechyd gwael o'i gymharu â phob grŵp ethnig arall (15.9% o Sipsiwn/Teithwyr Gwyddelig o'i gymharu â 4.6% o bobl Gwyn Prydain). Mae Sipsiwn a Theithwyr yn dal i gael eu hystyried fel y rhai sydd â'r iechyd gwaethaf a'r disgwyliad oes isaf yn y DU.

Roedd aelwydydd gyda phobl o gefndiroedd ethnig 'Gwyn arall', cymysg/lluosog, Asiaidd/Asiaidd Prydeinig, Du Affricanaidd/Caribiaidd/Du Prydeinig a chefnidiroedd ethnig 'eraill' i gyd yn fwy tebygol nag aelwydydd â phobl o gefndiroedd Gwyn Prydeinig o fod â llai o ystafelloedd gwely nag oedd ei angen.

Roedd pobl o gefndiroedd cymysg/lluosog a Du Affricanaidd/Caribiaidd/Du Prydeinig yn fwy tebygol na grwpiau ethnig eraill o fyw mewn tai cymdeithasol.

Roedd pobl o gefndiroedd Gwyn Prydeinig a Gwyn Gwyddelig yn llai tebygol na grwpiau ethnig eraill o fod yn byw mewn tai rhent preifat.

Roedd pobl o bob grŵp nad oeddent yn Wyn Prydeinig yn fwy tebygol na phobl Gwyn Prydeinig o fod yn byw mewn cartref heb gar neu fan.

Ymhlith pobl 25-34 oed, roedd pobl o gefndiroedd Gwyn yn llai tebygol o fod yn ddi-waith na phobl o gefndiroedd Du a Lleiafrifoedd Ethnig.

Ymhlith pobl 25-34 oed, roedd pobl o gefndiroedd Gwyn Gwyddelig ac Asiaidd/Asiaidd Prydeinig yn fwy tebygol o feddu ar gymwysterau lefel 4 (gradd neu uwch) na phobl Gwyn Prydeinig, tra bod pobl o gefndir Du

---

Llywodraeth Cymru (2022) Cynllun Gweithredu Gwrth-Hiliaeth, Wedi'i ddarganfod yn: [www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2022-06/an-introduction-to-an-anti-racist-wales.pdf](http://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2022-06/an-introduction-to-an-anti-racist-wales.pdf)

Affricanaidd/Caribiaidd/Du Prydeinig, 'arall'. Roedd cefndiroedd ethnig gwyn ac 'eraill' yn llai tebygol na phobl Gwyn Prydeinig o feddu ar y lefel hon o gymhwyster.

Ymhlith pobl 16-24 oed, roedd pobl o gefndiroedd ethnig lluosog cymysg, Gwyddelig Gwyn, Gwyn 'eraill' ac 'eraill' i gyd yn fwy tebygol na phobl o gefndiroedd Gwyn Prydeinig o fod heb unrhyw gymwysterau. Yn yr un grŵp oedran, roedd pobl o gefndiroedd Asiaidd/Asiaidd Prydeinig yn llai tebygol na phobl Gwyn Prydeinig o fod heb unrhyw gymwysterau. Roedd canran y bobl yn y grŵp oedran hwn heb unrhyw gymwysterau yn debyg ar gyfer pobl Ddu Affricanaidd/Caribiaidd/Du Prydeinig a Gwyn Prydeinig.

Ymhlith pobl 25-49 oed, roedd pobl o gefndiroedd Gwyn Gwyddelig, Gwyn Prydeinig a Gwyn 'eraill' yn llai tebygol o fod yn ddi-waith na phobl o gefndiroedd Du a Lleiafrifoedd Ethnig.

Ymhlith pobl 25-49 oed, roedd Gwyn Gwyddelig ac Asiaidd/Asiaidd Prydeinig yn fwy tebygol o fod mewn swyddi rheoli, gweinyddol a phroffesiynol uwch na phobl Gwyn Prydeinig, tra bod pobl Ddu Affricanaidd/Caribiaidd/Du Prydeinig, Gwyn 'eraill', cymysg/lluosog a chefnidiroedd ethnig 'eraill' yn llai tebygol na phobl Gwyn Prydeinig o fod mewn galwedigaethau o'r fath.

## **Crefydd a/neu Gred**

Yn ôl Cyfrifiad 2021<sup>28</sup>, Cristnogaeth yw'r crefydd fwyaf cyffredin o fewn pob oedran yng Ngogledd Cymru ac mae'n cynrychioli 49.8% o'r boblogaeth. Er bod y prif grŵp nesaf wedi nodi nad oedd ganddynt unrhyw grefydd ar 41.7%, mae ystadegau'n dangos bod 1.8% o'r boblogaeth yn cyfrif am bobl sy'n dilyn crefyddau Bwdhaidd, Hindŵaidd, Iddewig, Mwslimaidd a Sikhaid. Dewisodd 6.7% o bobl beidio â datgan eu crefydd neu gred.

I grynhoi, mae gan Ogledd Cymru gyfran uwch o bobl sy'n Gristnogion, heb unrhyw grefydd, neu heb ddatgan crefydd na'r ffigurau cenedlaethol. Mewn cyferbyniad, mae ganddi gyfran is o bobl sy'n dilyn crefydd heblaw Cristnogaeth, sy'n adlewyrchu cyfansoddiad ethnig y grefydd.

## **Priodas neu Bartneriaeth Sifil**

Fel y soniwyd yn gynharach yn yr adroddiad, nid yw priodas a phartneriaeth sifil yn dod o dan y PSED yn yr un modd â'r nodweddion gwarchoddedig eraill, fodd bynnag mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn amddiffyn unigolion sydd

---

<sup>28</sup> Equality and Human Rights Commission (2016) Healing a divided Britain, I'w weld yn: [www.equalityhumanrights.com/sites/default/files/2021/healing-a-divided-britain-august-2016.pdf](http://www.equalityhumanrights.com/sites/default/files/2021/healing-a-divided-britain-august-2016.pdf)

mewn partneriaeth sifil, neu briodas, rhag gwahaniaethu. Mae'r Gwasanaeth wedi ystyried y nodwedd warchoddedig hon yn yr un modd, yn bennaf oherwydd bod statws perthynas person yn un o'r ffactorau niferus a all eu rhoi mewn mwy o 'risg' o dân yn y cartref. Er enghraifft, os yw pobl yn byw ar eu pen eu hunain, maent mewn mwy o berygl o brofi tân yn y cartref. Mae pobl 65 oed a throsodd sy'n byw ar eu pen eu hunain mewn mwy fyth o berygl.

Mae tystiolaeth yn awgrymu bod bod yn briod yn gysylltiedig â gwell iechyd meddwl<sup>29</sup> ac iechyd corfforol<sup>30</sup>. Mae llai o dystiolaeth ar fanteision bod mewn partneriaeth sifil, ond mae'n debygol y bydd y buddion hefyd yn cael eu profi gan bobl mewn perthynas ymroddedig debyg fel partneriaethau sifil. Lle mae cyplau heterorywiol yn wahanol i barau mewn perthnasoedd o'r un rhyw a phartneriaethau sifil, maent yn profi trosedd casineb, gwahaniaethu ac erledigaeth oherwydd eu cyfeiriadedd rhywiol<sup>31</sup> ac mae hyn yn debygol o gael effaith negyddol ar eu lles meddyliol a'u hymdeimlad o ddiogelwch. Gall hyn hefyd ymwneud â diffyg cydnabyddiaeth gyhoeddus a fframwaith cymdeithasol cyson y gellir adeiladu perthynas o'r fath arno<sup>32</sup>.

Ar draws grwpiau oedran hŷn, roedd dynion a menywod yn byw fel cwpl yn fwy tebygol o fod mewn iechyd da neu iechyd da iawn o'i gymharu â'r rhai nad oeddent yn byw fel cwpl, waeth a oedd y rhai nad oeddent yn byw fel cwpl yn byw gyda phobl eraill ai peidio<sup>33</sup>.

Fel y byddech yn ei ddisgwyl, pobl 16-24 oed sydd fwyaf tebygol o fod yn sengl, a'r rhai 65+ oed yw'r grŵp oedran mwyaf tebygol o fod yn weddw neu'n bartner sy'n goroesi partneriaeth sifil o'r un rhyw<sup>34</sup>. [34] Mae partneriaethau sifil o'r un rhyw yn fwyaf cyffredin ymhlith pobl 35-49 oed, lle maent yn cyfrif am 0.2% o gyfanswm y grŵp oedran. Mae cyfran y bobl sy'n

---

<sup>29</sup> Office for National Statistics (2021) Religion, England and Wales: Census 2021 I'w weld yn: [www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/culturalidentity/religion/bulletins/religionenglandandwales/census2021](http://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/culturalidentity/religion/bulletins/religionenglandandwales/census2021)

<sup>30</sup> Kiecolt-Glaser, J. K. & Newton, T. L. (2001) Marriage and health: his and hers. Psychological bulletin, Vol 127(4), 472.

<sup>31</sup> King et al (2003) Mental health and quality of life of gay men and lesbians in England and Wales: controlled, cross-sectional study. The British Journal of Psychiatry, Vol 183(6), 552-558.

<sup>32</sup> King, M. & Barlett, A. (2006) What same sex civil partnerships may mean for health I'w weld yn: [www.ncbi.nlm.nih.gov/pmc/articles/PMC2465551/](http://www.ncbi.nlm.nih.gov/pmc/articles/PMC2465551/)

<sup>33</sup> Office of National Statistics (2021) People Population and Community, I'w weld yn: [www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/birthsdeathsandmarriages/ageing/articles/profileoftheolderpopulationlivinginenglandandwalesin2021andchangessince2011/2023-04-03](http://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/birthsdeathsandmarriages/ageing/articles/profileoftheolderpopulationlivinginenglandandwalesin2021andchangessince2011/2023-04-03)

<sup>34</sup> Office of National Statistics (2021) People Population and Community, I'w weld yn: [www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/birthsdeathsandmarriages/ageing/articles/profileoftheolderpopulationlivinginenglandandwalesin2021andchangessince2011/2023-04-03](http://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/birthsdeathsandmarriages/ageing/articles/profileoftheolderpopulationlivinginenglandandwalesin2021andchangessince2011/2023-04-03)

briod, wedi gwahanu neu wedi ysgaru yn cynyddu gydag oedran, hyd at 65+ pan fydd yn dechrau gostwng, i ystyried y gyfran gynyddol o bobl sydd wedi colli partner.

## Ystyriaethau'r Gymraeg

Yn ôl Cyfrifiad 2021<sup>35</sup>, yn arwyddocaol, mae'r canrannau uchaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru i'w gweld yn siroedd Gogledd Cymru Gwynedd (64.4%) ac Ynys Môn (55.8%). Mae Gogledd Cymru fel rhanbarth yn gartref i dros draean o boblogaeth Cymru sy'n siarad Cymraeg.

Mae'r Gwasanaeth wedi ymrwymo i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg fel iaith yn y gweithle a'r gymuned, ac mae'n adrodd ar hyn yn flynyddol fel sy'n ofynnol o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) (2011). Ochr yn ochr â hyn, mae'r Gwasanaeth yn cefnogi strategaeth Gymraeg 'Cymraeg 2050' Llywodraeth Cymru gyda'r targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 (Llywodraeth Cymru, 2017). Nod y strategaeth yw cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg a chreu amodau ffafriol i hyn ddigwydd, gan gynnwys cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle ar draws pob sector.

Cyhoeddir mwy o wybodaeth yn adroddiad monitro'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol [yma](#).

## Ystyriaethau economaidd-gymdeithasol

Amlinellir demograffeg ardal y Gwasanaeth yn gynharach yn yr adroddiad hwn ar dudalen 10.

Yn ôl Cyfrifiad 2021, mae rhai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru wedi'u crynhoi mewn trefi arfordirol a threfi'r gororau yng Ngogledd Cymru<sup>36,37</sup>. Mae'r ardaloedd hyn yn cynnwys Y Rhyl a Bae Cinmel. Yn Ne-orllewin Y Rhyl, mae amddifadedd yn effeithio ar tua 70% o aelwydydd yn ôl y map. Mae gan ardaloedd eraill, fel Abergele, Gorllewin Dinbych a Gronant hefyd gyfraddau uchel o amddifadedd, sef tua 60%. Mae o leiaf un math o amddifadedd yn effeithio ar tua 50% o gartrefi yn Llanelwy, Dyserth a Mostyn.

---

<sup>35</sup> Llywodraeth Cymru (2022) Y Gymraeg yng Nghymru, I'w weld yn: [www.llyw.cymru/y-gymraeg-yng-nghymru-cyfrifiad-2021-html](http://www.llyw.cymru/y-gymraeg-yng-nghymru-cyfrifiad-2021-html)

<sup>36</sup> Llywodraeth Cymru (2022) Analysis of population characteristics by area deprivation (Census 2021), I'w weld yn: [www.gov.wales/analysis-population-characteristics-area-deprivation-census-2021-html](http://www.gov.wales/analysis-population-characteristics-area-deprivation-census-2021-html)

<sup>37</sup> Llywodraeth Cymru (2021) Pobl ifanc heb fod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEET): Ebrill 2020 i Fawrth 2021. I'w weld yn: [www.llyw.cymru/sites/default/files/pdf-versions/2022/10/1/1666014008/pobl-ifanc-heb-fod-mewn-addysg-cyflogaeth-neu-hyfforddiant-neet-ebryll-2020-i-fawrth-2021.pdf](http://www.llyw.cymru/sites/default/files/pdf-versions/2022/10/1/1666014008/pobl-ifanc-heb-fod-mewn-addysg-cyflogaeth-neu-hyfforddiant-neet-ebryll-2020-i-fawrth-2021.pdf)

Mae Cymuned Parc Caia yn Wrecsam o fewn y 10 ardal fwyaf difreintiedig ar gyfer y parthau incwm, addysg a diogelwch cymunedol. Mae ardaloedd difreintiedig eraill yn cynnwys cymunedau arfordirol ar draws Sir y Fflint fel Glannau Dyfrdwy, Delyn ac Alyn. Cynhaliwyd ymgysylltiad cynhwysfawr yn yr ardaloedd difreintiedig hyn a darperir dadansoddiad llawn mewn adroddiad ymgynghori llawn.

Gogledd Cymru (14.4%) sydd â'r gyfran uchaf o bobl ifanc (16 i 24 oed) nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth, na Hyfforddiant (NEET), o'i gymharu â 13.1% yn Ne Cymru sydd â'r isaf<sup>38</sup>. Gyda chroestoriadedd mewn golwg, roedd 55.8% (26,600) o ddynion 16 i 24 oed yn NEET, o'i gymharu â 44.2% (21,100) o fenywod 16 i 24 oed. Mae pobl ifanc anabl yn fwy tebygol o fod yn NEET na phobl ifanc nad ydynt yn anabl ac mae cyfran y bobl anabl sy'n NEET yn codi o 18.1% yn 16 i 18 oed i 41.2% rhwng 19 a 24 oed<sup>39</sup>.

Y gyfradd gyflogaeth ar gyfer pobl rhwng 16 a 64 oed yng Nghymru oedd 73.0% yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2023, i lawr 0.6 pwynt canran o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol<sup>40</sup>.

Mae cyfraddau diweithdra yn wahanol ar draws Gogledd Cymru gyda Gwynedd (26.4%), Sir Ddinbych (26.1%), Conwy (24.2%), Ynys Môn (22.6%) (Wrecsam (22.1%) a Sir y Fflint (21.3%)<sup>41</sup>.

Nid yw cyflogaeth (neu weithio) yn atal profi tlodi ac amddifadedd. Gwaith cyflog isel yw'r cyfrannwr mwyaf at dlodi mewn gwaith gan ei fod yn ei gwneud hi'n anodd iawn dianc rhag tlodi, yn bennaf oherwydd nad yw rhai pobl yn cael digon o gyflog neu nad oes llawer o swyddi sy'n talu'n dda mewn ardal benodol<sup>42</sup>. Mae bylchau cyflog a thlodi mewn gwaith yn

---

• <sup>38</sup> Llywodraeth Cymru (2023) [Cyfranogiad pobl ifanc mewn addysg ac yn y farchnad lafur: 2021 a 2022 \(dros dro\)](http://www.llyw.cymru/cyfranogiad-pobl-ifanc-mewn-addysg-ac-yn-y-farchnad-lafur-2021-a-2022-dros-dro). I'w weld yn: [www.llyw.cymru/cyfranogiad-pobl-ifanc-mewn-addysg-ac-yn-y-farchnad-lafur-2021-2022-dros-dro-html](http://www.llyw.cymru/cyfranogiad-pobl-ifanc-mewn-addysg-ac-yn-y-farchnad-lafur-2021-2022-dros-dro-html)

<sup>39</sup> Llywodraeth Cymru (2021) Pobl ifanc heb fod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEET): Ebrill 2020 i Fawrth 2021. I'w weld yn: [www.llyw.cymru/sites/default/files/pdf-versions/2022/10/1/1666014008/pobl-ifanc-heb-fod-mewn-addysg-cyflogaeth-neu-hyfforddiant-neet-ebriill-2020-i-fawrth-2021.pdf](http://www.llyw.cymru/sites/default/files/pdf-versions/2022/10/1/1666014008/pobl-ifanc-heb-fod-mewn-addysg-cyflogaeth-neu-hyfforddiant-neet-ebriill-2020-i-fawrth-2021.pdf)

• <sup>40</sup> Llywodraeth Cymru (2023) [Ystadegau'r farchnad lafur \(Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth\): Ebrill 2022 i Fawrth 2023](http://www.llyw.cymru/ystadegau-farchnad-lafur-arolwg-blynyddol-or-boblogaeth-ebriill-2022-i-fawrth-2023.html). I'w weld yn: [www.llyw.cymru/ystadegau-farchnad-lafur-arolwg-blynyddol-or-boblogaeth-ebriill-2022-i-fawrth-2023.html](http://www.llyw.cymru/ystadegau-farchnad-lafur-arolwg-blynyddol-or-boblogaeth-ebriill-2022-i-fawrth-2023.html)

<sup>41</sup> Llywodraeth Cymru (2023) [Ystadegau'r farchnad lafur \(Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth\): Ebrill 2022 i Fawrth 2023](http://www.llyw.cymru/ystadegau-farchnad-lafur-arolwg-blynyddol-or-boblogaeth-ebriill-2022-i-fawrth-2023.html). I'w weld yn: [www.llyw.cymru/ystadegau-farchnad-lafur-arolwg-blynyddol-or-boblogaeth-ebriill-2022-i-fawrth-2023.html](http://www.llyw.cymru/ystadegau-farchnad-lafur-arolwg-blynyddol-or-boblogaeth-ebriill-2022-i-fawrth-2023.html)

<sup>42</sup> Joseph Rowntree Foundation (2020) UK Poverty Report 2019/20. I'w weld yn: [www.jrf.org.uk/report/uk-poverty-2019-20](http://www.jrf.org.uk/report/uk-poverty-2019-20)

effeithio llawer mwy ar grwpiau penodol nag eraill, ac mae'r risg o dlodi mewn gwaith yn fwy i weithwyr anabl a lleiafrifoedd ethnig<sup>43</sup>.

O ran iechyd, mae aelwyd yn cael ei hystyried yn amddifad os oes gan unrhyw berson yn yr aelwyd iechyd cyffredinol sy'n wael neu'n wael iawn neu'n cael ei adnabod fel person anabl<sup>44</sup>. Gellir dod o hyd i ddadansoddiad o anabledd yn yr adran berthnasol ar dudalen 12, mae'n werth nodi bod gan 21.1% o boblogaeth Gogledd Cymru anabledd a/neu gyflwr iechyd hirdymor<sup>45</sup>. Er mai Gwynedd (18.1%) ydy un o'r awdurdodau lleol sydd â'r gyfran isaf o bobl anabl yng Nghymru, mae canran gyfartalog pobl anabl ar draws y rhanbarth yn uwch na rhannau eraill o'r DU. Gyda chroestoriadedd mewn golwg, roedd 22.3% o ferched a 19.8% o ddynion yn anabl. Roedd canran y rhai sydd wedi'u cyfyngu ychydig yn 11.9% ar gyfer merched a 10.3% ar gyfer dynion. Nododd cyfran uwch o ferched na dynion eu bod wedi'u cyfyngu'n fawr; 10.4% a 9.5% yn y drefn honno<sup>46</sup>.

Gyda chroestoriadedd mewn golwg, mae cysylltiad uniongyrchol rhwng yr argyfwng costau byw ac iechyd gyda 60% o bobl yng Nghymru yn dweud bod eu hiechyd wedi gwaethygu oherwydd costau cynyddol<sup>47</sup>.

Mae disgwyliad oes yn ystyriaeth bwysig wrth archwilio safonau byw ac iechyd. Yng Nghymru, disgwyliad oes adeg genedigaeth oedd 82 mlynedd i fenywod a 78 mlynedd i ddynion ar gyfer 2018-20<sup>48</sup>. Roedd hyn yn ostyngiad bach i ddynion a menywod, yn dilyn cyfraddau marwolaeth uwch yn 2020 yn ystod pandemig COVID-19. Roedd disgwyliad oes iach yn 62 mlynedd i fenywod a 61 mlynedd i ddynion yn 2018 i 2020.

---

<sup>43</sup> Llywodraeth Cymru (2019) Mae'r rhan fwyaf o blant sydd mewn tlodi yn byw ar aelwydydd sy'n gweithio – adroddiad newydd. I'w weld yn: [www.llyw.cymru/maer-rhan-fwyaf-o-blant-sydd-mewn-tlodi-yn-byw-ar-aelwydydd-syn-gweithio-adroddiad-newydd](http://www.llyw.cymru/maer-rhan-fwyaf-o-blant-sydd-mewn-tlodi-yn-byw-ar-aelwydydd-syn-gweithio-adroddiad-newydd)

<sup>44</sup> Office of National Statistics (2021) Household deprivation variable: Census 2021, I'w weld yn: [www.ons.gov.uk/census/census2021dictionary/variablesbytopic/demographyvariables/census2021/householddeprivation#:~:text=A%20household%20is%20classified%20as%20deprived%20in%20the%20health%20dimension,or%20illnesses%20are%20considered%20disabled](http://www.ons.gov.uk/census/census2021dictionary/variablesbytopic/demographyvariables/census2021/householddeprivation#:~:text=A%20household%20is%20classified%20as%20deprived%20in%20the%20health%20dimension,or%20illnesses%20are%20considered%20disabled)

<sup>45</sup> Llywodraeth Cymru (2023) Iechyd, anabledd a darpariaeth gofal di-dal Cyfrifiad 2021. I'w weld yn: [www.llyw.cymru/iechyd-anabledd-darpariaeth-gofal-di-dal-yng-nghymru-cyfrifiad-2021-html](http://www.llyw.cymru/iechyd-anabledd-darpariaeth-gofal-di-dal-yng-nghymru-cyfrifiad-2021-html)

<sup>46</sup> Office of National Statistics (2021) Disability by age, sex and deprivation, England and Wales: Census 2021, I'w weld yn: [www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/disability/articles/disabilitybyagesexanddeprivationenglandandwales/census2021](http://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/disability/articles/disabilitybyagesexanddeprivationenglandandwales/census2021)

<sup>47</sup> National Health Service (2022) 60 per cent of people in Wales say their health has worsened due to rising cost of living. I'w weld yn: [www.nhsconfed.org/news/60-cent-people-wales-say-their-health-has-worsened-due-rising-cost-living](http://www.nhsconfed.org/news/60-cent-people-wales-say-their-health-has-worsened-due-rising-cost-living)

<sup>48</sup> Llywodraeth Cymru (2022c) Llesiant Cymru, 2022. I'w weld yn [www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2022-cymru-iachach](http://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2022-cymru-iachach)



Mae ystadegau Llywodraeth Cymru<sup>49</sup> yn awgrymu mai 83.1 o flynyddoedd oedd disgwyliad oes uchaf menywod yng Ngogledd Cymru yng Nghonwy a Gwynedd, tra mewn dynion yng Ngwynedd 79.5 oedd y disgwyliad oes uchaf. Roedd y disgwyliad oes isaf i fenywod yng Ngogledd Cymru yn Sir Ddinbych (81.1) ac mewn dynion roedd yn Sir Ddinbych a Wrecsam (78.3).

## Gweithgaredd Ymgysylltu Cyn Ymgynghori

Elfen allweddol o'r broses ymgynghori yw'r broses cyn ymgynghori. Roedd hyn yn cynnwys grwpiau ffocws gydag amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys partneriaid golau glas, grwpiau cymunedol, awdurdodau lleol, staff a chyrrff cynrychiadol. Pwrpas y broses cyn ymgynghori oedd cael mewnwelediad a dealltwriaeth ehangach i lywio'r broses o wneud penderfyniadau ac i lunio'r ymgynghoriad llawn.

Yn ystod y cyfnod cyn ymgynghori, archwiliwyd amrywiaeth o wahanol sefyllfaoedd drwy gyfres o weithdai, seminarau a grwpiau ffocws, lle casglwyd mewnwelediadau ac adborth gan ystod eang o bobl i lywio proses yr Awdurdod o wneud penderfyniadau.

Roedd y themâu allweddol a gododd o'r ymgysylltu hwn yn cynnwys:

- Cyllid – Deall y pwysau cyllidebol.
- Risgiau yn y dyfodol – Gall newid yn yr hinsawdd a thechnoleg newydd roi mwy o bwysau ar ein hadnoddau
- Atal ac amddiffyn – Sut bydd ein hymgysylltiad â'r cyhoedd a busnesau'n cael ei effeithio.
- Cyfathrebu – Allweddol i helpu ein dealltwriaeth o'r heriau a wynebir ac effeithiau unrhyw gynigion.

Yn ystod y cyfnod cyn ymgynghori, cysylltwyd ag amrywiol grwpiau buddiant cydraddoldeb i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad. Gellir disgrifio dau ddeg wyth o grwpiau sefydledig yn fras fel elusennau cydraddoldeb lleol, grwpiau cymunedol, grwpiau cynghori ar gydraddoldeb, grwpiau cymorth a sefydliadau ffydd o bob rhan o Ogledd Cymru.

Fel rhan o'r broses cyn ymgynghori, roedd methodoleg ymgysylltu yn cynnwys grwpiau ffocws a gynhaliwyd ar-lein ac yn bersonol, tra bod rhai grwpiau'n dymuno cyfathrebu i ddechrau trwy e-bost a thros y ffôn. Mae

---

<sup>49</sup> Llywodraeth Cymru (2022c) Llesiant Cymru, 2022. I'w weld yn [www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2022-cymru-iachach](http://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2022-cymru-iachach)

ystod y dulliau cyfathrebu a ddefnyddiwyd wedi ehangu mynediad a chasglwyd adborth. Roedd yr adborth hwn yn atgyfnerthu ac yn llywio'r fethodoleg a fabwysiadwyd gan y Gwasanaeth i ymgysylltu a chyfathrebu â gwahanol randdeiliaid yn ystod yr ymgynghoriad llawn. Roedd yr adborth gan y grwpiau buddiant cydraddoldeb yn ystod y broses cyn ymgynghori yn hynod werthfawr, yn enwedig eu barn ynghylch gweithgarwch atal ac amddiffyn rhag tân a amlygodd yr angen i gynnwys gwybodaeth yn ymwneud â'r tri opsiwn.

I grynhoi, roedd adborth cyn ymgynghori gan grwpiau buddiant cydraddoldeb yn ymwneud yn bennaf â gweithgarwch atal a gallu'r Gwasanaeth i fynychu digwyddiadau cymunedol, darparu Gwiriadau Diogel ac Iach a darparu cyngor diogelwch tân yn y dyfodol. Felly, mae'r tri opsiwn wedi'u datblygu i ganolbwyntio rhywfaint ar weithgarwch atal ac mae'r llenyddiaeth a ddarperir yn amlygu'r effaith bosibl ar weithgarwch cyflwyno. Bydd dau opsiwn yn ychwanegu gwerth o ran gallu i gyflawni gwaith atal yn y gymuned leol. Roedd yr ymgysylltiad hwn yn galluogi'r Gwasanaeth i esbonio sut mae'r rhan fwyaf o weithgarwch atal yn cael ei gyflawni gan staff atal, ond mae timau gweithredol yn ychwanegu gwerth. Ni chodwyd unrhyw bryderon eraill yn ystod y cyfnod cyn ymgynghori.

Daeth y Gwasanaeth â'i weithgareddau cyn ymgynghori i ben gyda'r arweiniad a'r gefnogaeth gan y Sefydliad Ymgynghori ym mis Mehefin, er mwyn sicrhau parodrwydd i ymgynghori mewn pryd ar gyfer proses ymgynghori lawn.

Cynhyrchwyd a chyhoeddwyd adroddiad cryno cyn ymgynghori yn seiliedig ar y grwpiau ffocws Rhanbarthol a EDI fel rhan o'r adran 'Sut y datblygwyd yr opsiynau' o'r wybodaeth ymgynghori a ganfuwyd. [yma](#).

## **Ymgysylltu ac Ymgynghori â Grwpiau Cydraddoldeb Penodol**

Cynhaliwyd cyfres o grwpiau ffocws Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant fel rhan o'r ymgynghoriad lle bu aelodau o'r tîm yn bresennol mewn sesiynau i drafod yr ymgynghoriad ac i gasglu adborth; helpodd hyn i sicrhau bod pob aelod o'r gymuned yn cael y cyfle i rannu eu barn.

Trefnwyd cyfanswm o 17 grŵp ffocws mewn partneriaeth â grwpiau buddiant cydraddoldeb, elusennau, sefydliadau ffydd, addoldai a sefydliadau addysgol. Manylir ar nifer y mynychwyr yn y tabl a geir yn adran 4.2 [yma](#).

Roedd y rhai a fynychodd y sesiynau yn cynrychioli ystod o aelodau o'r gymuned, gyda'r rhai a fyddai fel arall yn ei chael hi'n anodd cael mynediad i'r ymgynghoriad yn cael eu hannog i gymryd rhan heb gymorth. Cwblhawyd holiaduron ymgynghori yn ystod sesiynau, gyda mynychwyr eraill yn dewis mynd â'r holiadur / gwybodaeth i ffwrdd i'w gwblhau ar ôl y sesiwn. Helpodd grwpiau ffocws mewn prifysgolion lleol, colegau a grwpiau ieuenctid lleol i gasglu barn pobl ifanc a rhai o amrywiaeth o gefndiroedd ethnig.

Datblygwyd cwestiwn penodol yn yr holiadur ymgynghori i gefnogi dealltwriaeth effaith yr ECR mewn perthynas â'i effaith cydraddoldeb.

*Sef: Oes unrhyw faterion cydraddoldeb eraill y dylen ni fod yn meddwl amdany'n nhw?*

Gellir gweld yr Effeithiau Cydraddoldeb a gasglwyd fel rhan o'r ymgynghoriad yn adran 3.2.3 yr adroddiad ymgynghori, sydd i'w gweld [yma](#).

Hanner ffordd drwy'r ymgynghoriad, nodwyd nad oedd llawer o bobl 25 oed ac iau yn cymryd rhan yn y sesiynau ymgynghori neu'n llenwi'r holiadur ar-lein. O ganlyniad, trefnwyd grwpiau ffocws mewn gwahanol grwpiau ieuenctid a cholegau yn Wrecsam a Sir y Fflint, er y gellir cydnabod bod rhai myfyrwyr yn byw yn Sir Ddinbych. Defnyddiwyd ffeiriau glas y Brifysgol hefyd i ymgysylltu â phobl ifanc ac oedolion ifanc.

Cafodd y Gwasanaeth adborth gan grŵp o bobl hŷn nad oeddent yn gallu dod i'r digwyddiad ymgysylltu â'r cyhoedd yng Nghonwy ac nad oeddent yn gallu cael mynediad i'r holiadur ar-lein. Er mwyn ehangu mynediad, trefnodd y Gwasanaeth grŵp ffocws penodol mewn partneriaeth â'r Grŵp 'Brew and Biscuit' yng Nghyffordd Llandudno.

Yn ystod yr ymgynghoriad ar yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys, trefnwyd grwpiau ffocws gyda staff gweithredol mewn gwahanol leoliadau yn seiliedig ar gais. Mae'r adborth a ddarparwyd wedi'i gynnwys yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb sy'n nodi ac yn asesu'r risg bosibl o wahaniaethu ac anfantais i ddiffoddwyr tân oherwydd y newidiadau arfaethedig. Er bod dros 50 o staff wedi mynychu'r grwpiau ffocws mewnol, dim ond 37 o ddiffoddwyr tân amser cyflawn a roddodd adborth.

Mynychodd y Swyddog Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI) bedwar sesiwn grŵp ffocws a drefnwyd gan ddiffoddwyr tân yng Nglannau Dyfrdwy, y Rhyl (x 2) a Wrecsam. Cymerwyd nodiadau gan gynrychiolydd Menywod yn y Gwasanaeth Tân yn un o sesiynau'r Rhyl, ond gofynnwyd i staff e-bostio eu pryderon unigol yn y grwpiau ffocws eraill. Helpodd y dull hwn i sicrhau y gallai'r Swyddog EDI ganolbwyntio ar yr hyn oedd yn cael ei

ddweud ac ni chafodd adborth a ddarparwyd gan ddiffoddwyr tân ei gamddeall.

Mae'r ymgysylltiad staff hwn wedi'i grynhoi isod:

<b>Lleoliad gorsaf dân</b>	<b>Benyw</b>	<b>Gwryw</b>	<b>Cyfanswm</b>
Glannau Dyfrdwy	2	8	10
Caerdybi	0	1	1
Llandudno	0	1	1
Y Rhyl	7	9	16
Heb ei ddatgelu	1	2	3
Wrecsam	1	5	6
<b>Cyfanswm</b>	<b>11</b>	<b>26</b>	<b>37</b>

Fel corff cyhoeddus, mae gan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ddyletswydd i roi sylw dyledus i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus i ystyried effaith ei benderfyniadau ar bobl â nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, yn ogystal â Deddf Hawliau Dynol 1998 a Safonau'r Gymraeg 2011. Felly cafodd cwestiynau dewisol eu cynnwys yn yr holiadur ymgynghori. Dewisodd tua un o bob pump (20%) o ymatebwyr beidio â darparu gwybodaeth monitro cydraddoldeb.

Gellir dod o hyd i'r wybodaeth monitro cydraddoldeb llawn a gasglwyd yn ystod yr ymgynghoriad yn adran 3.1.4 o'r Adroddiad Ymgynghori sydd i'w gweld [yma](#).

## **Crynodeb o'r Ymgysylltu a'r Ymgynghoriad**

Fel rhan o'r ECR, gweinyddodd ATAGC ymgynghoriad cyhoeddus i gasglu adborth am ddyfodol sut y maent yn darparu gwasanaethau brys yng Ngogledd Cymru.

Roedd mandad yr ymgynghoriad yn gwahodd y rhai sy'n byw, yn gweithio ac yn teithio yn y rhanbarth i rannu eu barn ar ba risgiau sy'n peri'r pryder mwyaf iddynt, pa feini prawf gwneud penderfyniadau sy'n bwysig iddynt, a sut yr oeddent yn teimlo bod yr opsiynau a gyflwynwyd yn diwallu anghenion eu cymunedau.

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad ffurfiol rhwng 21 Gorffennaf a 30 Medi 2023. Estynnwyd dyddiad cau'r ymgynghoriad gwreiddiol rhwng 22 Medi a 30 Medi yn dilyn adborth a cheisiadau gan randdeiliaid a'r cyhoedd.

Roedd yr arolwg ymgynghori ar gael ar-lein (drwy [hwb ymgynghori Eich Llais](#)) ac mewn copiâu papur yn ôl yr angen gyda chyfeiriad Rhadbost ar gyfer atebion ynghyd â fersiynau hawdd eu darllen a dwyieithog. Gellir dod o hyd i'r dogfennau ymgynghori llawn [yma](#).

Cynhaliwyd cyfres o 17 o ddigwyddiadau ymgysylltu â'r gymuned yn bersonol ac ar-lein ar draws yr ardal rhwng 15 Awst 2023 a 14 Medi 2023 gan roi cyfle i'r cyhoedd ddysgu mwy am yr Adolygiad Darpariaeth Frys ac i ofyn cwestiynau a oedd yn llywio eu gallu i ymateb a rhoi adborth trwy'r holiadur ymgynghori.

Mynychodd cynrychiolwyr o GTAGC hefyd nifer o ddigwyddiadau cymunedol a sioeau haf yn ystod y cyfnod ymgynghori i godi ymwybyddiaeth o'r ymgynghoriad.

Cyflwynwyd cyfres o grwpiau ffocws gyda phobl ar draws gwahanol grwpiau buddiant cydraddoldeb. Cwblhawyd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb fel rhan o ymarfer mapio rhanddeiliaid cychwynnol yn ystod y cyfnod cyn ymgynghori, gellir dod o hyd iddo [yma](#) wedi'i atodi fel Atodiad 2.

## **Dadansoddiad Cydraddoldeb y Gweithlu**

Cynhaliwyd ymgynghoriad ag aelodau o staff drwy raglen o ymweliadau gan uwch reolwyr a phrif swyddogion i orsafoedd tân; mewn seminarau a gynhaliwyd ar gyfer rheolwyr canol a rheolwyr goruchwyllo a thrwy sesiynau briffio gwylfa gorsafoedd gan swyddogion cymorth gorsafoedd a rheolwyr canol. Defnyddiwyd sianeli cyfathrebu mewnol hefyd i helpu i godi ymwybyddiaeth reolaidd o'r ymgynghoriad ymhlith staff, gan gynnwys Diweddariad y Prif Swyddog Tân yn y Briff Wythnosol ac adran benodol ar fewnwyd y Gwasanaeth.

Ymgysylltwyd â chyrrff cynrychioli staff drwy'r Fforwm Ymgynghorol ar y Cyd, a chasglwyd Cwestiynau Cyffredin o ymweliadau â gorsafoedd; cafodd y rhain eu datblygu a'u diweddarau drwy gydol y cyfnod ymgynghori a'u darparu ar fewnwyd y Gwasanaeth.

Cynhaliwyd dadansoddiad mapio rhanddeiliaid i sicrhau bod pawb â diddordeb neu a allai gael eu heffeithio yn cymryd rhan yn yr ymgynghoriad.

Sefydlwyd cronfa ddata o randdeiliaid a chysylltiadau, ac anfonwyd e-bost dwyieithog gan Gadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru at yr holl gysylltiadau ar ddiwrnod lansio'r ymgynghoriad. Roedd y gronfa ddata hon yn cynnwys aelodau o'r Senedd, aelodau Seneddol, swyddogion cyswllt aelodau ar gyfer awdurdodau lleol, clerod cyngorau tref, aelodau o'r

Fforwm Lleol Cymru Gydnerth, uwch swyddogion o sefydliadau partner, cysylltiadau gan y tri rheolwr partneriaeth a chysylltiadau gan y Swyddog Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant. Roedd aelodau'r cyhoedd a oedd wedi gofyn am ymuno â'r gronfa ddata i gael gwybod am unrhyw ymgynghoriadau hefyd wedi'u cynnwys. Anfonwyd e-bost pellach at gysylltiadau i'w hysbysu bod dyddiad cau'r ymgynghoriad wedi'i ymestyn.

Dosbarthwyd copïau printiedig o daflenni ymgynghori, llyfrynau a holiaduron ECR gan reolwyr y partneriaethau lleol mewn manau cyfarfod a lleoliadau cymunedol amrywiol. Gadawyd taflenni hefyd ym mhob tŷ a gafodd Archwiliad Diogel ac Iach yn ystod y cyfnod ymgynghori.

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad llawn rhwng 21 Gorffennaf a 30 Medi 2023, a derbyniodd yr arolwg ymgynghori gyfanswm o 1,726 o ymatebion (1,500 ar-lein a 226 ar bapur).

Cafwyd 191 o ymatebion gan weithwyr Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.

Daeth dros 400 o bobl i ddigwyddiadau ymgysylltu â'r gymuned a mynychodd mwy na 480 grwpiau ffocws Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant neu ymgysylltwyd â'r Swyddog Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant fel rhan o'r ymgynghoriad.

Derbyniwyd cyfanswm o 119 o ymholiadau a/neu wrthwynebiadau i'r ECR yn ystod y cyfnod ymgynghori, gyda'r mwyafrif o'r rhain ar ffurf e-byst. Derbyniwyd niferoedd llai fel llythyrau, galwadau ffôn ac ymholiadau wyneb yn wyneb.

Roedd ymholiadau/gwrthwynebiadau yn cynnwys ymatebion gan aelodau'r Senedd, aelodau Seneddol, ymgeiswyr y pleidiau, awdurdodau lleol, cynghorau tref, cynghorwyr, cynrychiolwyr y llywodraeth a chyrrff cynrychioliadol. Derbyniwyd pum deiseb hefyd yn ystod y cyfnod ymgynghori.

Ymatebodd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru gan ymateb i adborth drwy gydol y cyfnod ymgynghori.

Lluniwyd adroddiad cryno terfynol gan ymgynghorydd ymchwil annibynnol. Cyflwynwyd yr adroddiad hwn i'r Awdurdod Tân ac Achub Llawn ar 16 Hydref 2023, gellir dod o hyd iddo [yma](#).

# **Crynodeb o Ganfyddiadau'r Dadansoddiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb**

Roedd adborth cynhwysfawr a gasglwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori yn galluogi'r Gwasanaeth i nodi ac asesu'r effeithiau posibl i randdeiliaid allanol a mewnol.

Mae'r adran hon yn crynhoi'r themâu cydraddoldeb lluosog a ddaeth i'r amlwg a'r mesurau amrywiol y bydd y Gwasanaeth yn eu rhoi ar waith i liniaru'r effaith ar bobl, ond yn bwysicach fyth, i ddileu gwahaniaethu.

Defnyddiwyd isadrannau i roi rhywfaint o sylwebaeth ar bob nodwedd warchoddedig a themâu eraill sy'n ymwneud â chydraddoldeb sy'n cysylltu â'r Gymraeg, statws economaidd-gymdeithasol a lleoliad daearyddol.

## **Oed**

### **Rhanddeiliaid Allanol**

Poblogaeth yn heneiddio: Gyda chyfran sylweddol o boblogaeth Gogledd Cymru yn 65 oed a throsodd, codwyd pryderon yn ystod yr ymgynghoriad ynghylch effaith bosibl newidiadau ar unigolion hŷn, yn enwedig mewn ardaloedd lle gallai amseroedd ymateb brys arafach effeithio ar eu diogelwch.

Oed ac anabledd: Amlygodd yr adroddiad nifer gynyddol o achosion o anabledd mewn gwahanol grwpiau oedran, a allai effeithio ar anghenion ymateb brys a gallu rhai unigolion i ddianc yn ystod argyfyngau, megis tanau.

Heriau ymgysylltu: Roedd anawsterau ymgysylltu â demograffeg iau (25 ac iau) yn y broses ymgynghori. Gwnaed ymdrechion i gynyddu cyfranogiad ymhlith ieuenctid ac oedolion ifanc, gan gynnwys trefnu grwpiau ffocws mewn gwahanol grwpiau ieuenctid a cholegau.

Rhwystrau ieithyddol a diwylliannol: Codwyd pryderon am aelodau hŷn o'r gymuned Fwslimaidd yn wynebu risgiau oherwydd symudedd cyfyngedig, rhwystrau iaith, ac arferion diwylliannol sy'n effeithio ar fesurau diogelwch tân. Mae'r cynnig yn awgrymu darparu ymyriadau diogelwch tân a chefnogaeth wedi'u teilwra i'r gymuned hon.

Pryderon seilwaith a mynediad: Codwyd materion ynghylch mynediad i'r gwasanaethau brys mewn ardaloedd ag adeiladau hŷn, mynediad cul, a nifer cyfyngedig o leoedd parcio. Yn ogystal, amlygwyd pryderon am gyfyngiadau cyflymder sy'n effeithio ar amseroedd ymateb brys.

## **Ymdrechion Lliniaru ar gyfer Rhanddeiliaid Allanol**

Strategaethau ymgysylltu: Gwnaeth y Gwasanaeth ymdrechion i ymgysylltu â grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, gan gynnwys unigolion hŷn a phobl ifanc, trwy grwpiau ffocws, digwyddiadau cyhoeddus, a chydweithio â sefydliadau cymunedol.

Ymyriadau wedi'u teilwra: Cynigiwyd camau gweithredu penodol i fynd i'r afael â risgiau a nodwyd, megis cynnig Gwiriadau Diogel ac Iach, trefnu ymweliadau grŵp, a hyrwyddo ymgyrchoedd ymwybyddiaeth ynghylch materion parcio a mynediad.

## **Risgiau Gweddilliol**

Mae'n bosibl y bydd rhai pryderon ynghylch amseroedd ymateb brys arafach ar gyfer rhai demograffeg, er gwaethaf ymdrechion i fynd i'r afael â'r rhain drwy egluro polisi a strategaethau ymgysylltu, yn parhau.

## **Rhanddeiliaid Mewnol (Diffoddwyr Tân)**

Pryderon teithio a blinder: Mynegodd diffoddwyr tân bryderon ynghylch amseroedd teithio cynyddol sy'n effeithio ar flinder, yn enwedig i ddiffoddwyr tân hŷn sy'n cymudo pellteroedd hirach, gan effeithio ar eu lles o bosibl.

Croestoriadedd: Roedd pryderon ynghylch effaith pellteroedd teithio hirach ar ddiffoddwyr tân benywaidd sy'n profi symptomau menopos eithafol.

## **Ymdrechion Lliniaru ar gyfer Rhanddeiliaid Mewnol**

Hyblygrwydd lleoliad gwaith: Bydd ymdrechion yn cael eu gwneud i ddarparu ar gyfer lleoliadau gwaith dewisol diffoddwyr tân, er na ellir gwarantu hyn i bawb.

Cefnogaeth ar gyfer anghenion penodol: Mae polisiâu a mecanweithiau cymorth ar waith, gan gynnwys ymdrin ag anabledd a datblygiad diweddar polisi menopos newydd, i fynd i'r afael â phryderon penodol a darparu cymorth angenrheidiol.



## **Risgiau Gweddilliol**

Yn gyffredinol, mae'r Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb yn tynnu sylw at ymdrechion amrywiol a wnaed i fynd i'r afael â phryderon a lliniaru risgiau i randdeiliaid allanol a diffoddwyr tân mewnol. Fodd bynnag, gall rhai risgiau gweddilliol, sy'n arbennig o gysylltiedig ag amseroedd ymateb brys arafach sy'n effeithio ar ddemograffeg penodol a phryderon unigol diffoddwyr tân, barhau.

## **Anabledd**

### **Rhanddeiliaid Allanol**

Poblogaeth ag anableddau: Mae gan gyfran sylweddol o boblogaeth Gogledd Cymru anableddau neu gyflyrau iechyd hirdymor, fel yr amlygwyd gan ddata'r Cyfrifiad diweddaraf.

Casglwyd adborth cynhwysfawr trwy ddigwyddiadau ymgysylltu â'r cyhoedd a grwpiau ffocws cydraddoldeb a drefnwyd gydag amrywiol sefydliadau partner.

Mynegwyd pryderon: Yn ystod yr ymgynghoriad, mynegwyd pryderon am y boblogaeth sy'n heneiddio, pa mor agored i syrthio, ac anawsterau wrth ddianc rhag tanau, yn enwedig ar gyfer unigolion â phroblemau symudedd neu gyflyrau iechyd cyfyngedig. Tynnwyd sylw hefyd at faterion mynediad ac effaith y terfyn cyflymder 20mya newydd, yn enwedig mewn ardaloedd penodol fel Conwy, Glannau Dyfrdwy, Treffynnon a Wrecsam.

Ymgysylltu â grwpiau penodol: Gofynnodd cynrychiolwyr o Autistic UK am eglurhad ynghylch sut mae'r Gwasanaeth yn rhyngweithio ag unigolion awtistig ac anabl, gan bwysleisio'r angen am well ymgysylltiad a dealltwriaeth. Gwnaethpwyd ymdrechion i gysylltu ag elusennau a phartneriaid perthnasol i wella allgymorth a gwasanaethau.

### **Ymdrechion Lliniaru ar gyfer Rhanddeiliaid Allanol**

Ymgysylltu ac ymwybyddiaeth: Gwnaeth y Gwasanaeth ymdrechion sylweddol i ymgysylltu ag unigolion ag anableddau neu gyflyrau iechyd hirdymor a chael adborth ganddynt trwy amrywiol ddigwyddiadau a phartneriaethau.

Hyfforddiant a chefnogaeth: Rhoddwyd sicrwydd bod fîm atal y Gwasanaeth wedi ceisio cysylltu â grwpiau rhanddeiliaid cynrychioliadol yng Ngogledd Cymru ac amlinellwyd cynlluniau i sicrhau bod staff yn derbyn hyfforddiant Ymwybyddiaeth Awtistiaeth i wella rhyngweithio a chefnogaeth i unigolion niwroamrywiol.

### **Risgiau Gweddilliol**

Er gwaethaf ymdrechion ymgysylltu, gallai heriau sy'n ymwneud â materion mynediad, yn enwedig mewn ardaloedd penodol â strydoedd cul, pryderon ynghylch cwmpadau a pha mor fregus yw poblogaethau sy'n heneiddio, ac anawsterau posibl wrth ddarparu ar gyfer anghenion penodol yn ystod argyfyngau i unigolion ag anabledau neu gyflyrau iechyd, barhau.

### **Rhanddeiliaid Mewnol (Diffoddwyr Tân)**

Pryderon a godwyd: Mynegodd diffoddwyr tân bryderon am effeithiau andwyol posibl ar eu hiechyd corfforol a meddyliol oherwydd pellteroedd teithio cynyddol ar draws Gogledd Cymru. Roedd yna bryderon am ddiflastod, ystum gwael, a blinder o ganlyniad i sifftiau a phellteroedd hirach.

Effaith ar ddiffoddwyr tân benywaidd: Roedd pryderon y byddai pellteroedd teithio hirach yn effeithio'n anghymesur ar ddiffoddwyr tân benywaidd, yn enwedig y rhai sy'n profi symptomau menapos eithafol, a allai effeithio ar eu perfformiad, eu gallu i ganolbwyntio, a'u lles cyffredinol.

Amgylchiadau penodol a chyfrifoldebau gofalu: Datgelodd rhai diffoddwyr tân gyfrifoldebau gofalu am aelodau o'r teulu â chyflyrau cronig neu anabledau. Mynegwyd pryderon am adleoli posibl gan effeithio ar eu gallu i ddarparu gofal a chymorth.

### **Ymdrechion Lliniaru ar gyfer Rhanddeiliaid Mewnol**

Cymorth iechyd a lles: Gwnaed ymdrechion i roi cyngor ar arferion gyrru diogel i liniaru pryderon iechyd corfforol yn ymwneud â phellteroedd teithio hirach. Yn ogystal, amlinellwyd cynlluniau ar gyfer darparu ar gyfer ceisiadau am leoliadau gwaith a darparu addasiadau rhesymol.

Ystyriaethau ar gyfer cyfrifoldebau gofalu: Mae'r Gwasanaeth yn anelu at ystyried a darparu ar gyfer anghenion penodol diffoddwyr tân sydd â chyfrifoldebau gofal yn ystod proses adleoli, gan sicrhau nad oes unrhyw wahaniaethu neu effeithiau andwyol oherwydd eu hamgylchiadau.

### **Risgiau Gweddilliol**

Er gwaethaf ymdrechion i ddarparu ar gyfer dewisiadau a darparu cymorth, gallai heriau barhau yn ymwneud ag effaith pellteroedd teithio hirach ar iechyd a lles diffoddwyr tân, yn enwedig ar gyfer diffoddwyr tân benywaidd

sy'n profi symptomau'r menopos, ac anawsterau posibl wrth ymdopi â chyfrifoldebau gofalu.

Mae'r adroddiad yn pwysleisio pwysigrwydd mynd i'r afael â'r pryderon hyn ar gyfer rhanddeiliaid allanol ag anableddau neu gyflyrau iechyd a rhanddeiliaid mewnol, yn enwedig diffoddwyr tân, trwy sicrhau ymgysylltiad, cefnogaeth, a llefy lle bynnag y bo modd.

## **Iechyd Meddwl a Lles**

### **Rhanddeiliaid Allanol**

Iechyd Meddwl a Lles: Mae'r adroddiad yn cydnabod bod pryderon iechyd meddwl a lles, sy'n cwmpasu hwyliau isel, straen, pryder ac iselder, yn gyffredin ymhlith y cyhoedd. Gwnaed ymdrechion ymgysylltu cynhwysfawr i ganfod yr effeithiau hyn ar y cyhoedd a gweithlu'r Gwasanaeth.

Adborth a blaenoriaethau'r cyhoedd: Datgelodd yr ymgynghoriad bryderon am les y gweithlu, gan bwysleisio pwysigrwydd gweithlu effeithlon sydd wedi'i hyfforddi'n dda, cynnal cydbwysedd bywyd a gwaith, a mynd i'r afael ag effeithiau posibl ar staff a'u teuluoedd. Teimlwyd mai Opsiwn 1 oedd yn darparu'r gwasanaeth tân gorau gan 68% o'r ymatebwyr, gyda phryderon yn cael eu codi am ansicrwydd swydd ac effeithiau andwyol ar iechyd meddwl yn gysylltiedig ag opsiynau eraill.

### **Ymdrechion Lliniaru ar gyfer Rhanddeiliaid Allanol**

Ymgysylltu â barn y cyhoedd: Gwnaed ymdrechion i gasglu a mynd i'r afael â phryderon y cyhoedd ynghylch lles y gweithlu, sicrwydd swyddi, ac effaith opsiynau arfaethedig, yn enwedig o ran iechyd meddwl. Roedd Opsiwn 1 yn cael ei ffafrio ar gyfer ei amddiffyniad canfyddedig o swyddi diffoddwyr tân.

Deall Canfyddiad y Cyhoedd: Er bod y cyhoedd yn gweld bod Opsiwn 1 yn cael cyn lleied o effeithiau andwyol â phosibl, nodwyd bod ymgynghori pellach â staff yn dangos y gallai fod effeithiau mwy, yn enwedig ar iechyd meddwl.

### **Risgiau Gweddilliol i Rhanddeiliaid Allanol**

Er gwaethaf ffafriaeth y cyhoedd tuag at Opsiwn 1, roedd pryder, er bod y cyhoedd yn gweld effeithiau andwyol bychan iawn, y gallai'r effeithiau gwirioneddol ar staff y Gwasanaeth fod yn fwy sylweddol.

### **Rhanddeiliaid Mewnol (Diffoddwyr Tân)**

Pryderon iechyd corfforol a meddyliol: Mynegodd diffoddwyr tân bryder ynghylch mwy o amser teithio sy'n effeithio ar eu hiechyd corfforol a meddyliol. Roedd effeithiau andwyol ar iechyd meddwl o ganlyniad i

ansicrwydd a newidiadau posibl mewn systemau dyletswydd neu leoliadau gweithleoedd yn gyffredin.

Cymorth a chyfathrebu: Mae'r Gwasanaeth yn cydnabod ac yn mynd i'r afael â'r pryderon iechyd meddwl hyn drwy ddarparu mecanweithiau cymorth a chyfathrebu â diffoddwyr tân yr effeithir arnynt.]

Effaith ar fywyd cymdeithasol ac iechyd meddwl: Lleisiodd diffoddwyr tân bryderon am newidiadau posibl sy'n effeithio ar eu bywydau cymdeithasol, gan arwain at beryglu iechyd meddwl. Amlygwyd pwysigrwydd rheoli amgylchiadau unigol yn ystod y broses adleoli er mwyn lleihau effeithiau negyddol.

### **Ymdrechion Lliniaru ar gyfer Rhanddeiliaid Mewnol**

Mynd i'r afael â phryderon: Gwneir ymdrechion i liniaru risgiau trwy ganiatáu i ddiffoddwyr tân fynegi eu lleoliadau gwaith dewisol a sefyllfaoedd unigol yn ystod unnryw broses adleoli. Bydd mecanweithiau cymorth a chynghor perthnasol yn cael eu darparu i helpu i reoli straen, blinder a straen corfforol oherwydd mwy o amser teithio.

### **Risgiau Gweddilliol i Rhanddeiliaid Mewnol**

Er gwaethaf ymdrechion i fynd i'r afael â phryderon a darparu cymorth, erys risgiau gweddilliol posibl o ran effaith andwyol mwy o amser teithio ar iechyd corfforol, iechyd meddwl a bywydau cymdeithasol diffoddwyr tân oherwydd newidiadau mewn systemau dyletswydd neu leoliadau gweithle.

Mae'r adroddiad yn tanlinellu pwysigrwydd deall a mynd i'r afael â phryderon iechyd meddwl ar gyfer rhanddeiliaid allanol, megis y cyhoedd, a rhanddeiliaid mewnol, yn benodol diffoddwyr tân, wrth weithredu newidiadau a chynnal ymgynghoriadau.

## **Rhywedd**

### **Rhanddeiliaid Allanol**

Ymgysylltu â grwpiau rhywedd: Ymgysylltodd y Gwasanaeth â sefydliadau amrywiol ar sail rhywedd i gysylltu â grwpiau rhywedd penodol a chasglu adborth.

Mynegwyd pryderon ynghylch newidiadau posibl i'r system ddyletswydd sy'n effeithio ar fenywod, yn enwedig gofalwyr cynradd a rhieni. Nodwyd anghydbwysedd rhwng y rhyweddau mewn rolau gofalwyr, gan godi materion yn ymwneud â chyfrifoldebau gofal plant a statws economaidd-gymdeithasol.

Tebygolrwydd ac effaith: Mynegwyd pryderon ynghylch effaith newidiadau i'r system ddyletswydd ar gyfranogiad menywod a chyfrifoldebau gofalwyr.

Graddiwyd y tebygolrwydd o effeithiau o'r fath yn gymedrol, gyda sgôr effaith gyffredinol yn dangos pryder sylweddol.

### **Ymdrechion Lliniaru ar gyfer Rhanddeiliaid Allanol**

Rhagor o ymchwil ac arolygon: Mae hyn yn cynnwys cynlluniau ar gyfer arolygon canfyddiad y cyhoedd ar draws gwahanol grwpiau oedran i archwilio pryderon ymhellach a chasglu tystiolaeth a defnyddio arolygon staff diweddar i lywio penderfyniadau sy'n ymwneud â menywod a chyfrifoldebau rhianta.

Deall croestoriadedd: Mae cydnabod pryderon croestoriadol megis yr effaith ar unigolion sy'n byw ar eu pen eu hunain, mewn adrannau amrywiol o'r adroddiad hwn (h.y. Oedran).

### **Risgiau Gweddilliol i Rhanddeiliaid Allanol**

Pryderon effaith rhywedd: Er gwaethaf arolygon a gynlluniwyd a'r defnydd o adborth staff, mae perygl o anwybyddu pryderon penodol, yn enwedig y rhai sy'n effeithio ar fenywod fel gofalwyr sylfaenol, yn ystod newidiadau posibl i'r system ddyletswydd.

### **Rhanddeiliaid Mewnol (Diffoddwyr Tân)**

Pryderon rhianta: Amlygodd yr adborth bryderon ymhlith diffoddwyr tân gwrywaidd a benywaidd am eu rolau fel prif ofalwr. Pwysleisiwyd effaith bosibl newidiadau i'r system ddyletswydd neu leoliad ar gyfrifoldebau rhianta, costau gofal plant ac arferion teuluol.

Beichiogrwydd a mamolaeth: Mynegodd diffoddwyr tân bryderon y gallai newidiadau rwystro recriwtio a chadw rhieni ifanc, yn enwedig menywod, oherwydd materion cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith, amseroedd teithio a chostau gofal plant.

### **Ymdrechion Lliniaru ar gyfer Rhanddeiliaid Mewnol**

Cwrdd ag anghenion unigol: Mae hyn yn cynnwys cynlluniau i ganiatáu i ddiffoddwyr tân fynegi eu dewisiadau yn ystod unryw adleoli, a fydd yn ystyried eu hamgylchiadau unigol, eu hanghenion a'u dewisiadau cydraddoldeb, yn enwedig ar gyfer staff beichiog neu'r rhai sy'n dychwelyd o gyfnod mamolaeth.

Mynd i'r afael â phryderon recriwtio: Ymdrechion i liniaru pryderon am ddarpar ddiffoddwyr tân benywaidd sy'n gadael trwy ystyried anghenion, dewisiadau unigol, a darparu cefnogaeth ar gyfer materion sy'n ymwneud â mamolaeth.

## **Risgiau Gweddilliol i Randdeiliaid Mewnol**

Heriau recriwtio a chadw: Er gwaethaf ymdrechion i ddarparu ar gyfer dewisiadau a chefnogi staff beichiog, mae risg weddilliol o rwystro recriwtio a chadw diffoddwyr tân benywaidd oherwydd heriau posibl o ran cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith a materion gofal plant.

Mae'r adroddiad yn nodi pryderon sylweddol ynghylch effeithiau rhywedd benodol, yn enwedig yn ymwneud â chyfrifoldebau gofalu, rhianta a heriau recriwtio. Mae'n pwysleisio pwysigrwydd ystyried anghenion a dewisiadau unigol wrth weithredu unrhyw newidiadau mewn systemau dyletswydd neu leoliadau i liniaru effeithiau andwyol ar randdeiliaid mewnol ac allanol.

## **Beichiogrwydd a mamolaeth**

### **Rhanddeiliaid Allanol**

Nid oedd ymgysylltu ag unigolion beichiog a'r rhai ar absenoldeb mamolaeth yn datgelu unrhyw faterion cydraddoldeb penodol yn ymwneud â beichiogrwydd neu famolaeth. Roedd cydweithio â sefydliadau el Canolfan Menywod Gogledd Cymru, Pride Gogledd Cymru, a phrifysgolion yn hwyluso cysylltiadau â'r gynulleidfa darged. Mynegodd rhai myfyrwyr ddiddordeb yn y system ddyletswydd yr Opsiynau ond codwyd pryderon am hyblygrwydd, yn enwedig i unigolion â babanod newydd.

### **Liniaru ar gyfer rhanddeiliaid allanol**

Ymgysylltiad organig: Anelir ymagwedd y Gwasanaeth at ymgysylltu cynhwysfawr heb dargedu unigolion yn benodol ar sail beichiogrwydd a mamolaeth, gan sicrhau bod safbwyntiau amrywiol yn cael eu cofnodi.

### **Risg Gweddilliol i Randdeiliaid Allanol**

Pryderon anhysbys posibl: Er na chododd unrhyw bryderon penodol, mae risg weddilliol o hyd o faterion heb eu harchwilio sy'n gysylltiedig â phriodas neu bartneriaethau sifil na fyddent efallai wedi cael eu lleisio yn ystod yr ymgynghoriad.

### **Rhanddeiliaid Mewnol (Diffoddwyr Tân)**

Effaith yn y dyfodol: Mynegodd diffoddwyr tân heb blant ond sy'n meddwl am deuluoedd yn y dyfodol, bryderon ynghylch adleoli posib i orsafoedd newydd sy'n effeithio ar recriwtio a chadw.

Heriau recriwtio: Cododd pryderon ynghylch effaith y tri opsiwn ar recriwtio rhieni ifanc, yn enwedig menywod, oherwydd cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith, costau teithio a chostau gofal plant.

### **Lliniaru ar gyfer rhanddeiliaid mewnol**

Ystyriaeth unigol: Mae'r mesurau a gynigir yn cynnwys caniatáu mewnbyn mewn dewisiadau yn y gweithle yn ystod unrhyw adleoli ac ystyried anghenion unigol yn ystod y broses, yn enwedig i unigolion beichiog a'r rhai sy'n dychwelyd o gyfnod mamolaeth

#### **Risgiau gweddilliol i rhanddeiliaid mewnol:**

Er gwaethaf mesurau lliniaru, mae heriau posibl yn parhau i gadw a recriwtio rhieni ifanc, yn enwedig menywod, oherwydd materion cydbwysu rhwng gwaith a bywyd canfyddedig, cyfyngiadau teithio a chostau gofal plant. Gallai cydbwysu anghenion y Gwasanaeth ag anghenion unigol fod yn her barhaus.

### **Ailbennu Rhywedd / Hunaniaeth**

#### **Rhanddeiliaid Allanol (Unigolion Trawsryweddol a/neu Anneuaidd)**

Ymgysylltu a themâu: Roedd ymgysylltu â chymunedau trawsryweddol ac anneuaidd yn rhoi adborth cynhwysfawr, gan dynnu sylw at bryderon am rwystrau posibl. Mynegodd Rhwydwaith Trawsryweddol Unigryw ddiddordeb mewn gwaith atal ac ymgysylltu â'r gwasanaeth tân. Codwyd pryderon ynghylch cau gorsafoedd, newidiadau i'r system ddyletswydd, a'r effaith ar gyfranogiad y Gwasanaeth mewn digwyddiadau cymunedol fel Pride.

#### **Ymdrechion Lliniaru ar gyfer Rhanddeiliaid Allanol**

Eglurhad ar weithgareddau'r Gwasanaeth: Eglurodd y Gwasanaeth rolau ei adrannau anweithredol o ran ymgysylltu â'r gymuned, gan bwysleisio y gallai newidiadau arfaethedig wella allgymorth cymunedol mewn lleoliadau allweddol.

#### **Risgiau Gweddilliol i Rhanddeiliaid Allanol**

Pryderon canfyddiad: Er gwaethaf yr esboniadau, mae risg weddilliol y gallai canfyddiadau o lai o staff neu orsafoedd yn cau effeithio ar allu'r Gwasanaeth i ymgysylltu â'r gymuned drawsryweddol a'r gymuned ehangach.

## **Rhanddeiliaid Mewnol (Diffoddwyr Tân)**

Ymgysylltu â grwpiau mewnol: Ymgynghorodd y Swyddog Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant â Rhwydwaith Staff LHDTC+ FirePride yn ystod y broses cyn ymgynghori, ac ni chodwyd unrhyw bryderon yn ymwneud yn benodol ag unigolion trawsryweddol a/neu anneuaidd yn ystod grwpiau ffocws mewnol.

Asesiad risg isel: Gan na ddaeth unrhyw bryderon uniongyrchol i'r amlwg mewn grwpiau ffocws mewnol, mae'r risg sy'n ymwneud ag unigolion trawsryweddol a/neu anneuaidd yn cael ei hystyried yn isel yn fewnol.

